ADRODDIAD BLYNYDDOL MERCHED Y WAWR 2007-2008

MUDIAD GWIRFODDOL SYDD YN TREFNU GWEITHGAREDDAU CYMDEITHASOL AC ADDYSGOL I FERCHED AC SYDD YN HYBU ADDYSG, DIWYLLIANT A'R CELFYDDYDAU YNG NGHYMRU TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Rhif Elusen: 506789

SWYDDFA GENEDLAETHOL:

CANOLFAN MERCHED Y WAWR
STRYD YR EFAIL
ABERYSTWYTH
CEREDIGION
SY23 1JH

Ffôn: 01970 611 661
Ffacs: 01970 626 620
E-bost: swyddfa@merchedywawr.com
Safle gwe: www.merchedywawr.com a
www.clybiaugwawr.com

CYNNWYS

RHAGARWEINIAD	1
CYNNWYS	2
SWYDDOGION A STAFF CENEDLAETHOL	3
RHESTR CANGHENNAU A CHLYBIAU GWAWR	4
GAIR GAN Y LLYWYDD CENEDLAETHOL	6
GWEITHGAREDDAU AM Y FLWYDDYN 2007-2008	10
ADRODDIADAU'R RHANBARTHAU	15
ADRODDIADAU'R SWYDDOGION DATBLYGU	24
CRYNODEB O STRATEGAETH	37
CYFRIFON	39

Cynhyrchwyd
gyda chefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Argraffwyd gan Wasg Gomer

SWYDDOGION CENEDLAETHOL 2007-2008

Y PWYLLGOR LLYWIO

LLYWYDD ANRHYDEDDUS	Marged Jones
LLYWYDD CENEDLAETHOL	Mary Price
IS-LYWYDD CENEDLAETHOL	Esyllt Jones
YSGRIFENNYDD CENEDLAETHOL	Einir Wyn
IS-YSGRIFENNYDD CENEDLAETHOL	Mary Roberts
TRYSORYDD CENEDLAETHOL	Elfair Jones
IS-DRYSORYDD CENEDLAETHOL	Elinor Davies
CYNRYCHIOLWYR YR IS-BWYLLGORAU)	Siân Lewis
AR Y PWYLLGOR LLYWIO)	Siân Arwel Davies
	Glenys Davies

STAFF

CYFARWYDDWR CENEDLAETHOL	Tegwen Morris
SWYDDOGION DATBLYGU:	
Y De-ddwyrain a Gorllewin Morgannwg	Malvina Ley
Gogledd Orllewin Cymru a Maldwyn Powys	Mim Roberts
Gogledd Ddwyrain Cymru	Anwen Williams
Ceredigion a Phenfro	Elizabeth Evans
Caerfyrddin	Yvonne Davies-Grodzicka
SWYDDOG HYRWYDDO CLYBIAU GWAWR	Ffion Hughes/
	Lowri Rees-Roberts
Y Gogledd	
SWYDDOG HYRWYDDO CLYBIAU GWAWR	Ruth Morgan
Y De	
STAFF Y GANOLFAN	
Rheolwr Hyrwyddo Cymraeg Cymunedol	Jayne Jones
Swyddog Gweinyddol	Delyth Rees
Swyddog Cyllid	Miriam Garratt
Gofalwr	Brian Ishmael

IS-BWYLLGOR Y WAWR

GOLYGYDD	Siân Lewis
IS-OLYGYDD	Catrin Stevens
DOSBARTHWR	Gwenda John
TREFNYDD HYSBYSEBION	Meirwen Hughes

IS-BWYLLGOR GŴYL A HAMDDEN

LLYWYDD	Glenys Davies
YSGRIFENNYDD	Ann Jones
TRYSORYDD	Meira Evans

IS-BWYLLGOR IAITH A GOFAL

LLYWYDD	Siân Arwel Davies
YSGRIFENNYDD	Anna Phillips
TRYSORYDD	Margaret Jones

RHESTR CANGHENNAU A CHLYBIAU GWAWR

Rhanbarth Aberconwy (15) 14 + 1
Betws y Coed a'r Fro, Capel Garmon, Carmel, Cyffordd Llandudno, CG Crwst, Eglwys Bach, Eigiau, Glan Conwy, Henryd, Llanddoged, Llandudno, Llanfairfechan, Llanrwst, Mochdre, Penmachno

Rhanbarth Arfon (16) 15 + 1
Bangor, Bethel, Bethesda, Brynaerau, Caernarfon, Deiniolen, Dinas Llanwnda a'r Cylch, CG Glannau Llyfni, Llandwrog, Llanrug, Penrhosgarnedd, Penygroes, Rhiwlas, Tregarth, Waunfawr, Y Groeslon

Rhanbarth Caerfyrddin (42) 32 + 10
Abergorlech, Abernant, Bargod Teifi, Berem, Bro Alma, Bro Cennech, Bro Elfed, Bro Gwili, Bro Pantycelyn, Caerfyrddin, Capel Iwan, CG Alltgafan, CG Clychau'r Gôg, CG Cwm Gwendraeth, CG Dinefwr, CG Dyffryn Aman, CG Llanllwni, CG Llanymddyfri, CG Maelog, CG Llangadog, CG Merched Hywel, Cwmfelin, Geler, Glannau Pibwr, Gronw, Gwendraeth, Hendygwyn ar Daf, Llandeilo, Llanddarog, Llanelli, Llangadog, Llangyndeyrn, Llannau'r Tywi, Nantgaredig, Pencader a'r Cylch, Peniel, Penygroes, Pump Heol, Pumsaint, Rhydaman, San Clêr, Y Tymbl

Rhanbarth Ceredigion (38) 33 + 5
Aberporth, Aberystwyth, Beulah, Bro Cranogwen, Bro Ilar, Bronant, CG Cylch Cennin, CG Cwennod, CG Cwmann a'r Fro, CG Glannau Teifi, CG Y Pennau, Cylch Aeron, Cylch Emlyn, Cylch Teifi, Cylch Wyre, Cylch y Mwnt, Felinfach a'r Cylch, Ffair Rhos a'r Cylch, Genau'r Glyn, Glynarthen, Llanafan, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a'r Cylch, Llanfarian a'r Cylch, Llangwyryfon, Llannon, Llanybydder, Llwynpiod, Melindwr, Mynach a'r Cylch, Penrhyncoch, Rhydypennau, Talgarreg, Talybont, Tregaron, Y Bryniau, Y Dderi, Y Garreg Wen

Rhanbarth Colwyn (17)
Abergele, Bae Colwyn, Groes, Gwytherin, Hen Golwyn, Henllan, Llanelwy, Llangernyw, Llangwm, Llansannan, Llanfair Talhaearn, Nantglyn, Pandy Tudur, Pentrefoelas, Prestatyn, Uwchaled, Y Rhyl

Rhanbarth Y De-ddwyrain (11)
Aberdâr, Bro Radur, Caerdydd, Casnewydd, Merthyr Tudful, Penybont ar Ogwr, Porthcawl, Tonysguboriau, Y Barri, Y Bontfaen, Y Garth

Rhanbarth Dwyfor (18)
Abersoch, Bryncroes, Cricieth, Chwilog, Golan, Llanaelhaearn, Llaniestyn, Llannor ac Efailnewydd, Llwyndyrus, Morfa Nefyn, Mynytho, Nant Gwynant, Nefyn, Pencaenewydd a'r Cylch, Pistyll, Porthmadog, Pwllheli, Trefor

Rhanbarth Glyn Maelor (19) 16 + 3
Bontuchel a'r Cylch, Bryneglwys a Llandegla, CG Maelor, CG Traed yn Rhydd, CG Y Gleision, Corwen, Cynwyd, Derwen a'r Cylch, Dinbych a'r Cylch, Dyffryn Ceiriog,

Gwyddelwern, Llanfair Dyffryn Clwyd, Llanrhaeadr Y.C., Rhiwlas a'r Cylch, Rhos a Phenycae, Rhuthun, Treffynnon, Wrecsam, Yr Wyddgrug

Rhanbarth Gorllewin Morgannwg (13)
Abertawe, Afan, Castell Nedd, Glyn Nedd, Gorseinon, Gwaun Gors, Lôn Las, Pontardawe, Pontarddulais a'r Cylch, Treboeth, Treforys, Ystalyfera, Y Gwter Fawr

Rhanbarth Maldwyn-Powys (15) 13 + 2
Bro Cyfeiliog, Bro Ddyfi, Carno, CG Glyndŵr, CG Tanat, Croesoswallt, Y Foel a'r Cylch, Glantwymyn, Llanerfyl, Llanfair Caereinion, Llanrhaeadr ym Mochnant, Llanfyllin, Llanwddyn, Y Canoldir, Y Drenewydd

Rhanbarth Meirionnydd (30) 27 + 3
Aberdyfi, Blaenau Ffestiniog, Brithdir, Bro Tryweryn, Bryncrug, Corris a'r Cylch, Deudraeth, Dolgellau, Glanrafon-Corwen, Harlech, CG Y Gwyniaid, CG Y Lechen Las, CG Y Sgwâr, Llandrillo, Llan Ffestiniog, Llandderfel, Llanuwchllyn, Maesywaun, Mawddwy, Nantcol, Rhydymain, Pennal, Sarnau, Talsarnau, Trawsfynydd, Tywyn, Y Bala, Y Bermo a'r Cylch, Y Ganllwyd, Y Parc

Rhanbarth Môn (23) 21 + 2
Amlwch, Benllech, Bodedern, Bodwrog, Brynsiencyn, Caergybi, Cemaes, Gaerwen, CG Y Lawd, CG Y Gors Coch, Llanddeusant, Llandegfan, Llanfairpwllgwyngyll, Llanfechell, Llangefni, Llannerchymedd, Maelog, Niwbwrch, Porthaethwy, Rhosmeirch, Rhosybol, Talwrn, Y Fali

Rhanbarth Penfro (14)
Blaenffos, Beca, Bro Barti Ddu, Bro Ddewi, Capel Newydd, Crymych, Dinas, Ffynnon Groes, Hwlffordd, Llandudoch, Maenclochog, Mynachlogddu, Tegryn, Trefdraeth.

Gair gan y Llywydd Cenedlaethol
Mary Price

Gair gan y Llywydd Cenedlaethol – Mary Price

Ceisiaf groniclo isod rai o'r digwyddiadau y cefais y fraint a'r pleser o fod yn rhan ohonynt o Fedi 2007 hyd at Awst 2008.

Rhaid dechrau'r adroddiad yma ar nodyn trist oherwydd y cysgod a ddaeth dros weithgareddau'r penwythnos pan glywyd fore Gwener y Penwythnos Preswyl am farwolaeth sydyn Eirlys Peris Davies, Penfro. Bu'n llywydd Cenedlaethol rhwng 1984 -1986 a hi oedd llywydd Rhanbarth Penfro 2005/06. Gwyddom am ei hymroddiad dros yr iaith a phopeth sy'n annwyl ac yn bwysig i ni fel cenedl. Bu'n weithgar iawn gydag is-bwyllgor yr Anabl. Roedd ganddi ddiddordeb mawr yn Lesotho a chyswllt Merched y Wawr a'r 'homemakers'. Bu wrthi'n ddyfal yn casglu arian tuag at yr homemakers. Cefais gyfle i roi teyrnged i Eirlys ar ran yr aelodau cyn dechrau ar weithgareddau'r penwythnos. Trefnwyd cyfarfod Coffa yng nghapel Penygroes Crymych ar Fedi 29ain i ddiolch am ei bywyd a'i chyfraniad helaeth i Gymru a'i phobl.

Daeth penllanw Dathlu'r Deugain yn ystod y Penwythnos Preswyl ym Mangor ac addas iawn oedd y thema '**Rhialtwch y Rhuddem'.** Fel arfer roedd yr arlwy yn ardderchog efo rhywbeth at ddant pob aelod.

Yn ôl y geiriadur ystyr 'rhialtwch' yw difyrrwch, llawenydd, miri a digrifwch ac yn sicr cafwyd llawer o ddifyrrwch yn ystod blwyddyn y dathlu. Llawenydd wrth gymdeithasu a mynychu'r gwahanol weithgareddau ac fe fu chwerthin, digon o hwyl a'r cyfan yn seiliedig ar ein hymrwymiad i'n Hiaith a'n Gwlad.
Ein 'hiaith a'n gwlad' oedd thema ein penwythnos y tro diweddaf i ni fod ym Mhrifysgol Bangor yn 1988,

Ar ddechrau blwyddyn newydd yn hanes y Mudiad cafwyd rhai newidiadau ymhlith y swyddogion. Daeth tymor Maureen Hughes fel ysgrifenyddes Genedlaethol i ben a diolchwyd iddi am ymgymryd â gwaith yr ysgrifenyddes am flwyddyn ychwanegol. Croesawyd Einir Wyn yn ysgrifenyddes Genedlaethol a dymunwyd yn dda iddi, hefyd i Mary Roberts fel is ysgrifenyddes. Er bod Malvina yn swyddogol, wedi ymddeol ar ôl nifer o flynyddoedd fel swyddog datblygu yn Y De Ddwyrain a Gorllewin Morgannwg, cytunodd i aros ymlaen hyd nes y penodir swyddog datblygu newydd i Y De-Ddwyrain a Gorllewin Morgannwg. Mynegwyd ein gwerthfawrogiad o holl waith Malvina.

Braint ac anrhydedd oedd croesawu Meri Huws i annerch a rhoi croeso swyddogol ar ran Prifysgol Bangor i'r aelodau. Yn ogystal â bod y ferch gyntaf i gael ei phenodi'n Ddirprwy Is-ganghellor Prifysgol Cymru, Bangor, mae'n Bennaeth Adran Addysg Gydol Oes ym Mhrifysgol Bangor. Ers 2004 hi yw Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Pleser dydd Sadwrn oedd gwrando ar rai o'r myfyrwyr yn rhoi 'blas ar waith y Brifysgol' i ni. Menter newydd eleni oedd dewis 5 o ferched i gael gweddnewidiad, gyda chymorth arbenigwyr ym maes trin gwallt, harddwch a choluro hefyd cymorth Siop Ddillad o Fangor. Unwaith eto bu'r tywydd yn garedig iawn wrthym, felly pleser pur oedd treulio'r prynhawn yn crwydro o gwmpas Plas Newydd ar lannau'r Fenai a hefyd James Pringle, Llanfairpwll. Aeth eraill i siopa yn Llandudno. Cyfareddwyd ni hefyd gan y plasty hardd a'i holl drysorau. Cawsom ein diddori gan 'ddoniau disglair Cymru' Dafydd Iwan, Gwyn Evans a Dr Jazz. Yna cafwyd ein difyrru

gan Gerallt Pennant, Côr Ieuenctid Môn, arweinydd Mari Pritchard, cyfeilydd Sioned Webb. Siân Manahan Thomas ag Aled Hall.

Bore Sul cafwyd gwasanaeth yng ngofal Rhianwen Huws Roberts ac aelodau lleol a gwnaed casgliad tuag at Y Samariaid yn lleol ac yn genedlaethol. I gloi'r gweithgareddau perfformiwyd drama "Goriad yn y drws" gan Gwmni'r Parc. Esyllt Jones yr is lywydd cenedlaethol gyflwynodd gair o ddiolch a chyfeiriodd at ein dyled i bawb a fu wrthi'n paratoi arlwy'r Penwythnos Preswyl o dan arweinyddiaeth Tegwen.

Yn ystod Medi, Hydref, Tachwedd a Rhagfyr mae gwaith y Mudiad yn mynd rhagddo, pwyllgorau i'r swyddogion a staff yn y Pencadlys yn Aberystwyth. Yna cyfle i groesawu aelodau o bob Rhanbarth i'r Pwyllgor Rhyngranbarthol. Bydd yr is bwyllgorau yn cyfarfod ar yr un dydd Sadwrn felly mae hwn yn ddiwrnod trwm o bwyllgora. Ond mae'n well gan yr aelodau ymgynnull un waith yn hytrach na gorfod teithio ddwywaith i Aberystwyth. Fel mae'r dechnoleg yn camu ymlaen cyn bo hir bydd yn bosibl pwyllgora trwy 'gynhadledd fideo', lle bydd yr aelodau yn gweld a chlywed ei gilydd trwy gyfrwng y dechnoleg ddiweddaraf.

Bum yn ffodus i fedru mynychu pob Pwyllgor Rhanbarth o leiaf unwaith. Diolch am y croeso a dderbyniais. Teimlaf fod ymweld â'r rhanbarthau yn bwysig iawn er mwyn dŵad i adnabod yr aelodau sy'n gweithio'n lleol. Rhaid talu teyrnged i'r holl weithwyr gwirfoddol sy'n gweithio'n ddiwyd yn enw'r Mudiad.

O Fis Medi hyd at fis Awst bu'r dyddiadur yn llawn. Cefais y pleser o deithio ar hyd a lled Cymru, yn ymweld â changhennau, cyd-ddathlu yn y canghennau ac yn rhanbarthol. Bu cyfle i gynrychiol'r Mudiad ar nifer o achlysuron a'r cyfan yn gyfle i hyrwyddo'r Mudiad. Gan fy mod wedi ymweld â chynifer o ddigwyddiadau, dathliadau a chiniawau nid yw'n bosibl enwi pob un felly unwaith eto diolch o galon i bawb.

Digwyddiad pwysig yn y De oedd noson Lansio'r Clybiau Gwawr yng Nghlwb Nos y Waterside yng Nghaerfyrddin. Edrychaf ymlaen at noson fel hon yn y Gogledd.
Daeth 2008 yn llawn addewidion a gobeithion ac erbyn diwedd Awst gwireddwyd y rhan fwyaf ohonynt. Mae hynny oherwydd bod gennym Gyfarwyddwr a chriw o bobl weithgar iawn yn y Swyddfa yn Aberystwyth a Swyddogion Datblygu ymroddgar allan yn y maes yn annog a chefnogi'r canghennau a'r Clybiau. Penodwyd Eirlys Davies yn Swyddog Datblygu i'r De Ddwyrain a De Powys a Lowri Rees Roberts yn Swyddog hyrwyddo'r Clybiau Gwawr yn y Gogledd.

Un o'r breuddwydion yn flynyddol yw cynyddu nifer yr aelodaeth yn y canghennau a'r clybiau a braf yw gallu dweud ein bod wedi llwyddo.
Yn ystod fy nhymor manteisiais ar y cyfle i fynychu'r Cyrsiau Crefft a chefais gyfle i arbrofi a dysgu llawer gyda thiwtoriaid medrus iawn. Maent yn werth chweil.

Wedyn daeth yn amser dathlu Gŵyl ein nawdd sant, cefais wahoddiadau caredig oddi wrth cynifer o ganghennau a bum yn ddigon ffodus i fedru ateb pob un ohonynt yn gadarnhaol. Rwy'n falch o ddweud y byddaf yn cofio am eich caredigrwydd a'ch cyfeillgarwch am byth.

Un o'r uchafbwyntiau blynyddol yw dau ginio'r Llywydd. Dau leoliad newydd eleni, a dau rwy'n siŵr y byddwn yn edrych ymlaen at ymweld â hwy eto. Cynhaliwyd cinio'r de yn yr Halliwell, Coleg y Drindod ar y 5ed o Ebrill. Estynnwyd croeso cynnes i ni i Sir Gâr gan Haulwen Booth Llywydd Rhanbarth Caerfyrddin. Ein gŵr gwadd oedd Peter Hughes Griffiths. Dewisodd, yn addas iawn, i siarad am 'Ddylanwad y ferch arno'. Cawsom araith

fyrlymus a ffraeth ganddo. Diddanwyd ni gan fyfyrwyr o'r Coleg, Laura Blundell a Hannah Owen Griffiths ac yn cyfeilio iddynt roedd Caradog Williams.

Sialens newydd i ni oedd trefnu Cinio'r Llywydd yng Nglan-llyn. Hoffwn longyfarch Wendy Jones, Llywydd Rhanbarth Meirionnydd nid yn unig am ddysgu Cymraeg ond hefyd am ddefnyddio'r iaith a bod yn rhan mor allweddol o'r gymdeithas Gymraeg ym Meirionnydd. Braf oedd cael cwmni ein Llywydd Anrhydeddus, Marged Jones.
Diolch i Benaethiaid y Gwersyll a'r staff am eu holl waith caled yn paratoi ar ein cyfer. Dyma fangre sy'n gyforiog o atgofion ieuenctid i lawer o'n haelodau. Mae'n rhaid bod rhywbeth arbennig yn yr ardal yma achos nepell o'r fan yma y cafwyd y weledigaeth o sefydlu Mudiad Merched y Wawr. Y weledigaeth y buom ni'n sôn cymaint amdani wrth ddathlu'r deugain y llynedd. Yma wrth gwrs y gwireddwyd breuddwyd Syr Ifan ap Owen M Edwards o sefydlu gwersyll yr urdd.
Ein braint a'n cyfrifoldeb ni fel Mudiad yw datblygu'r weledigaeth o " hybu unrhyw achos er budd merched yng Nghymru". Ein gŵr gwadd oedd Cyfarwyddwr Glan-llyn, Huw Antur Edwards. Cawsom ganddo amlinelliad o'r datblygiadau cyffroes sydd yn y gwersyll ar hyn o bryd. Roedd yn agoriad llygad gan ein bod wedi cael cyfle, amser paned, i wylio ffilm o'r Gwersyll ddoe a heddiw. Yr artistiaid oedd Edryd Williams ac Alex Peate. Yn wir cawsom wledd gerddorol i gloi ein gweithgareddau.

Mae'r ail Sadwrn ym mis Mai yn ddyddiad i'w gofio i aelodau pum Rhanbarth y Gogledd. Yn wir mae'r Rhanbarthau Môn, Arfon, Dwyfor, Aberconwy a Meirionnydd i'w llongyfarch am gyd gyfarfod ac am drefnu rhaglen o gerddoriaeth, barddoniaeth, a rhyddiaith gan artistiaid gorau ein cenedl. Yn goron ar y cyfan yn ystod y dydd ceir amser i gymdeithasu, i fwynhau pryd o fwyd blasus iawn a gwario ceiniog neu ddwy.

Y Sadwrn canlynol cefais y fraint o groesawu'r aelodau i Ysgol Bro Ddyfi, ym Machynlleth ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol yn y bore, yr adloniant a seremoni'r dysgwyr yn y prynhawn. Heb anghofio cyflwyno tystysgrifau i'r buddugwyr ym maes chwaraeon. Cafwyd diwrnod rhagorol a gwledd o fagiau glas amgylcheddol y mudiad yn ymddangos ar eu newydd gwedd a lluniau o ferched wrth eu gwaith yn amrywiol a safonol.

Cynhaliwyd Eisteddfod yr Urdd yn Llandudno. Bu aelodau Aberconwy a Cholwyn yn gweithio'n galed iawn o dan gyfarwyddid Gareth Owen yn paratoi arddangosfa chwaethus iawn ar gyfer ein Pabell ar y maes. Thema'r arddangosfa oedd Cerdd gan Myrddin ap Dafydd sy'n sôn am Ianto'n ymweld â'r Wybrnant. Profiad newydd, diddorol a chyffrous oedd i'r aelodau ymweld ag Wybrnant ac arbrofi trwy wneud bras luniau mewn aml gyfrwng.

Aethpwyd o'r Urdd i'r Sioe Fawr yn Llanelwedd. Clwyd oedd yn noddi Sioe Llanelwedd eleni ac o ganlyniad bu rhanbarthau Colwyn a Glyn Maelor yn cynllunio a threfnu ar y cyd, gan baratoi arddangosfa hyfryd o waith crefft a gyfleodd olygfa o dirlun Dyffryn Clwyd yn safle'r Mudiad yn Neuadd Morgannwg. Diolch i Anwen Williams, Swyddog Datblygu ac i'r holl aelodau a gyfrannodd at y campwaith, a diolch arbennig i'r pedair arbenigwraig sef Llinos Roberts, Ann Jones, Mary Mars Lloyd a Nia Rowlands am eu gweledigaeth a'u cyfarwyddo. Braf oedd gweld safon arbennig yng nghystadlaethau'r sioe. Rhanbarth Glyn Maelor oedd yn fuddugol, gyda Rhanbarth Arfon yn ail a Rhanbarth Ceredigion yn drydydd. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Gaynor Bryan Jones, Cangen Bryneglwys a Llandegla, Rhanbarth Glyn Maelor a ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth gosod blodau. Daeth Gill Owen, Cangen y Foel, Rhanbarth Maldwyn Powys yn ail a Lilwen Thomas, Cangen San Clêr, Rhanbarth Caerfyrddin yn drydydd.

Fel arfer roedd digon o wirfoddolwyr caredig i groesawu pawb a alwodd heibio ac i baratoi paned a chacennau cri. Fel arwydd o'n gwerthfawrogiad i'n swyddogion yn y Rhanbarthau a'n partneriaid cynhaliwyd derbyniad ar y prynhawn dydd Mercher.

Hoffwn fynegi fy niolch i Siân Lewis am roi i ni gylchgrawn diddorol a difyr i'w ddarllen ac mae posibl ennill gwobrau da hefyd! Dymuniadau gorau i Catrin Stevens fydd yn cychwyn ar eu gwaith fel golygydd y Wawr ym mis Medi 2008.
Er na chafwyd lawer o haf yn ystod 2008 fe gynhaliwyd ein holl brif ddigwyddiadau a rhaid cofnodi i ni gael tywydd braf ac ambell i ddiwrnod poeth yn ystod pob un o'r digwyddiadau Cenedlaethol 2006/ 2008.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r De Ddwyrain am eu cyflwyniad 'O'r Bannau i'r Bae', cyflwyniad oedd yn gyfaredd i'r glust ac yn wledd i'r llygaid. Gan fod fy nhymor i fel llywydd yn dirwyn i ben, hoffwn ddiolch i holl aelodau Merched y Wawr ar hyd a lled Cymru, am y croeso, y cyfeillgarwch a'r gefnogaeth a gefais yn ystod fy llywyddiaeth. Hefyd diolch i Tegwen Morris, Cyfarwyddwr y mudiad, fy nghyd swyddogion cenedlaethol, staff y swyddfa a'r swyddogion datblygu am y cyd weithio hapus a fu yn ystod y ddwy flynedd.
Braint ac anrhydedd oedd cael urddo Esyllt Jones, yn Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr am 2008 i 2010 ar lwyfan y Brifwyl yng Nghaerdydd.

Pan gefais y fraint o annerch yn Abertawe ddwy flynedd yn ôl roedd gen i 3 gair, dyfalbarhau, dal ati a dathlu; a dathlu a fu gyda holl ddigwyddiadau Rhialtwch y Rhuddem,

Yng Nghaerdydd mae'r llythyren C yn cynnig nifer o eiriau sy'n mynegi'r hyn a gefais i gennych chi yn ystod y ddwy flynedd diweddaf - Cefnogaeth, cymorth, cyfeillgarwch, cynhaliaeth, cwmnïaeth a heb anghofio'r ciniawau, byddaf yn cofio hyn i gyd.
Bu'n ddwy flynedd brysur iawn oherwydd dathlu'r Deugain, ac mae'r parti yn parhau gan fod nifer o ganghennau yn cyrraedd y deugain o fis i fis. Felly dal ati i fwynhau a dathlu; gan gofio bob amser fod Tegwen, y swyddogion cenedlaethol, y swyddogion datblygu a staff y swyddfa yno i'ch cynorthwyo ac yn gefn i ni'r aelodau bob amser.
Dw' i wedi cael y pleser a'r anrhydedd o ymweld â phwyllgorau a digwyddiadau Cenedlaethol a rhanbarthol ac wedi cael cwmni llawer ohonoch yn eich canghennau ac wedi cyd weithio mewn 'Eisteddfod a Sioe'.
Diolch am fod yn griw brwdfrydig, gweithgar ac am eich safiad a'ch cadernid dros yr iaith a phopeth sy'n bwysig i ni yma heddiw.
Hoffwn ddymuno pob llwyddiant i Esyllt yn ystod ei llywyddiaeth ac rwy'n siŵr y byddwch yr un mor gefnogol iddi hi.

GWEITHGAREDDAU AM Y FLWYDDYN

Penwythnos Preswyl 2007
Cynhaliwyd y Penwythnos Preswyl ar y 14eg hyd 16eg o Fedi 2007 ym Mangor ar y thema "Rhialtwch y Rhuddem". Ar ôl prynhawn o siopa yn y ddinas a swper blasus ym Mhrifysgol Bangor, croesawyd pawb i'r penwythnos gan ein Llywydd Cenedlaethol, Mary Price a gofiodd yn annwyl am Eirlys Peris Davies, Cyn-lywydd Cenedlaethol a fu farw yn y bore.. Cafwyd noson arbennig yng nghwmni Gwyn Evans y Dr Jazz a Dafydd Iwan . Diwrnod prysur ond hwyliog oedd ddydd Sadwrn gyda phum aelod yn cael eu coluro a'u gwisgo yn yr eitem harddwch, coluro gan Llywela o Virgin Vie, a'u gwisgo gan siop So Chic, a'u gwalltiau wedi eu gwneud gan Nia. Ar ôl paned, cafwyd cyflwyniadau gan Meri Huws, staff Prifysgol Bangor a'r cyflwynydd, Gerallt Pennant yn y bore. Wedi cinio cafwyd gwibdaith arbennig i Blas Newydd yn Sir Fôn, ac i James Pringle, Llanfairpwll. Gyda'r nos cafwyd cyngerdd mawreddog yng nghwmni Aled Hall, Elin Manahan Thomas a Chôr Ieuenctid Môn o dan arweiniad Mari Pritchard. Bore Sul perfformiodd Cwmni'r Parc ddrama 'Goriad yn y drws' yn dilyn gwasanaeth dan ofal Rhianwen Huws Roberts ac aelodau lleol. Yn wir, roedd hi'n benwythnos i'w chofio.

Cwis Hwyl 2007
Cynhaliwyd y Cwis Hwyl ar y 23ain o Dachwedd. Y pedwar thema eleni oedd hanes a daearyddiaeth Cymru, chwaraeon a cherddoriaeth, bwyd a diod a 'taclo'r teclyn'. Llongyfarchiadau i Gangen Bro Radur, Rhanbarth y De-ddwyrain a ddaeth yn fuddugol. Yn gydradd ail daeth Cangen Talwrn, Rhanbarth Môn a changen Prestatyn, Rhanbarth Colwyn. Daeth timau Cangen Aberystwyth, Rhanbarth Ceredigion, Cangen Abergele, Rhanbarth Colwyn a changen y Bala, Rhanbarth Meirionnydd hefyd i'r brig gan ddod yn gydradd drydydd.

Ffair Aeaf 2007
Ar y 26ain a'r 27ain o Dachwedd bu nifer o staff, swyddogion a gwirfoddolwyr y mudiad yn llafurio'n galed yn y Ffair Aeaf. Bu bron i 200 o addurniadau tlws ar y goeden Nadolig ac roedd pob un yn unigryw. Diolch yn fawr i bawb fu'n cystadlu a llongyfarchiadau i'r buddugwyr. Dyma'r canlyniadau, Addurniadau Nadolig – 1af, Ann Williams, Cangen Bro Pantycelyn, Rhanbarth Caerfyrddin. 2ail, Cangen Rhydymain, Rhanbarth Meirionnydd. 3ydd, Llinos Roberts, Cangen Henllan, Rhanbarth Colwyn. Llyfrau Lloffion – 1af, Cangen Pwllheli, Rhanbarth Dwyfor. 2ail Cangen Bro Tryweryn, Rhanbarth Meirionnydd. 3ydd Cangen Abersoch, Rhanbarth Dwyfor.

Cyrsiau Crefft y De 2008
Daeth nifer dda o aelodau ynghyd i Gwrs Crefft y De a gynhaliwyd yng Nghanolfan y Celfyddydau, Prifysgol Llanbedr Pont Steffan ar Ionawr 19eg. Cynigwyd dewis o bedwar pwnc, Coginio, Gemwaith, Gwaith Cyfrifiadur, Eitem o hen jîns gyda'r tiwtoriaid Gareth Richards, Llinos Roberts, Dafydd Lewis a Mary Mars Lloyd. Cafodd pawb fwynhad mawr a chynhyrchwyd llawer o waith gwych.

Cwrs Crefft y Gogledd 2008
Cynhaliwyd Cwrs Crefft y Gogledd, yng Ngholeg Llysfasi, Rhuthun ar yr 2il o Chwefror 2008. Cafwyd cwrs llwyddiannus a hwyliog. Cynhaliwyd y cyrsiau canlynol: Gemwaith, Gwaith Cyfrifiadur ac Eitem o hen jîns gyda'r tiwtoriaid, Nia Clement, Gwenan Owen, Llinos Roberts a Mary Mars Lloyd. Roedd yn ddiwrnod oer a llithrig ond dysgwyr llawer o grefftau gwych.

Cinio'r De 2008

Cynhaliwyd Cinio'r De ar y 5ed o Ebrill yn yr Halliwell, Coleg y Drindod, Caerfyrddin. Roedd y diwrnod yn un llwyddiannus iawn ac yn gyfle i bawb ddod at ei gilydd i ddathlu ac i anrhydeddu'r Llywydd yng nghwmni'r gŵr gwadd, Peter Hughes Griffiths. Rhoddodd araith bwrpasol am yr holl ferched a ddylanwadodd ei fywyd ac anogodd aelodau i fod yn ddylanwadol o fewn eu cymunedau. Cafwyd adloniant arbennig gan fyfyrwraig a chyn-fyfyrwraig yng Ngholeg y Drindod, Laura Blundall a Hannah Owen Griffiths.

Cinio'r Gogledd 2008

Wythnos yn ddiweddarach ar Ebrill y 12fed, cynhaliwyd Cinio'r Llywydd yn y Gogledd yng Ngwersyll Glan-llyn yn Llanuwchllyn. Hyfryd oedd cael cwmni ein Llywydd Anrhydeddus Cenedlaethol, Marged Lloyd Jones y Bala a dathlodd, yr wythnos honno ei phen-blwydd yn 95 mlwydd oed. Cafwyd cofiant fesul degawd gan y siaradwr gwadd Huw Antur sef Cyfarwyddwr y Gwersyll. Darparwyd adloniant bendigedig gan Edryd Williams a'r gyfreithwraig gerddorol Alecs Peate, sef telynores Powys.

Gŵyl Haf Machynlleth 2008

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol yn Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi Machynlleth ar ddydd Sadwrn 17 Mai 2008 lle daeth 700 o aelodau ynghyd. Ein gwestai arbennig oedd Geraint Lloyd , Radio Cymru a chafwyd cyflwyniad arbennig ganddo. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mary Price.

Gofynnwyd i Geraint Lloyd edrych drwy ôl-rifynnau cylchgrawn Y Wawr eleni a dewis un erthygl a oedd yn denu ei sylw a'i ddiddordeb. Roedd Eiddwen Jones yr enillydd wedi ysgrifennu am daith i bendraw'r byd ac yn ôl. Geraint gyda chymorth Elen Pencwm bu'n beirniadu'r cystadlaethau adloniant yn ogystal.

Dyma restr o'r buddugwyr :

Gwobr Patagonia: Eiddwen Jones, Cangen Abergele, Rhanbarth Colwyn, am yr erthygl 'I Ben Draw'r Byd ac yn ôl'. **Cystadleuaeth Cynllunio Cerdyn Nadolig -** pedair yn fuddugol: Rhian Rees, Cangen Bronant, Rhanbarth Ceredigion. Glenys Williams, Cangen Llanrhaeadr YC, Rhanbarth Glyn Maelor. Grace Birt, Cangen Abertawe, Rhanbarth Gorllewin Morgannwg. G Angela Jones, Cangen Llangernyw, Rhanbarth Colwyn. **Cwis Hwyl Cenedlaethol:**1af - Prentisiaid, Cangen Bro Radur, Rhanbarth Y De-Ddwyrain. Cydradd 2il - Cangen Talwrn, Rhanbarth Môn. Cangen Prestatyn, Rhanbarth Colwyn, Cydradd 3ydd - Cangen Abergele, Rhanbarth Colwyn. Cangen Aberystwyth, Rhanbarth Ceredigion. Cangen y Bala, Rhanbarth Meirionnydd. **Ffotograffiaeth:** 1af - Grace Birt, Cangen Abertawe, Rhanbarth Gorllewin Morgannwg. 2il - Jen Macdonald, Cangen y Garth, Rhanbarth Y De-Ddwyrain. Cydradd 3ydd - Janice Hughes, Cangen Capel Newydd, Rhanbarth Penfro. May Jenkins, Cangen Hwlffordd, Rhanbarth Penfro. **Addurno Bag Glas:** 1af - Mair Davies, Cangen Abergorlech, Rhanbarth Caerfyrddin. 2il - Olive Roberts, Cangen Llanfair DC, Rhanbarth Glyn Maelor. 3ydd - Cangen Cylch Teifi, Rhanbarth Ceredigion. **Cystadleuaeth Meimio unrhyw gân neu hwiangerdd Gymraeg:** 1af - Cangen Aberystwyth, Rhanbarth Ceredigion**.** 2il - Cangen Gorseinon, Rhanbarth Gorllewin Morgannwg**.** 3ydd - Cangen Ffynnon Groes, Rhanbarth Penfro**.**

Cystadleuaeth Band unrhyw ystafell yn y tŷ: 1af - Cangen Bro Ddyfi, Rhanbarth Maldwyn Powys. 2il - Cangen Llanfyllin, Rhanbarth Maldwyn Powys. Cydradd 3ydd - Cangen Aberystwyth, Rhanbarth Ceredigion. Cangen Y Foel, Rhanbarth Maldwyn Powys. **Cystadleuaeth y Dysgwyr - Erthygl yn mynegi barn am yr amgylchedd:** 1af - Flo Brady. 2il - Joe Thurman. 3ydd - J Michael Williams. **Poster ar y thema 'Amgylchedd':** 1af - Julia Wilson. Cydradd 2il - Jane Morgan a Joan Gilbert. Cydradd - 3ydd: Annie Ball a Jenny Butler. **Sgwrs ar dâp:** 1af - Elinor Joyce Owen yn sgwrsio gyda Mer Evans. 2il - Valerie Owen yn sgwrsio gyda Margaret Môn Griffiths. 3ydd - Christine Ryder yn sgwrsio gyda Cath Williams. **Dominos:** 1af - Cangen Bronant, Rhanbarth Ceredigion. 2il - Cangen Capel Garmon, Rhanbarth Aberconwy. 3ydd - Cangen Beca, Rhanbarth Penfro. **Bowlio Dan Do:**

1af - Cangen Bro Ddyfi, Rhanbarth Maldwyn Powys. 2il - Cangen Crymych, Rhanbarth Penfro**.** 3ydd - Cangen Llandudoch, Rhanbarth Penfro. **Dartiau:**1af - Cangen Llansannan, Rhanbarth Colwyn. 2il - Cangen Tegryn 1, Rhanbarth Penfro. 3ydd - Cangen Tegryn 2, Rhanbarth Penfro. **Badminton:** 1af - Cangen Dinbych, Rhanbarth Glyn Maelor. 2il - Clwb Gwawr y Gwyniaid, Rhanbarth Meirionnydd. 3ydd - Cangen Llanfyllin, Rhanbarth Maldwyn-Powys. **Gyrfa Chwist Cymar:** 1af - Cangen Henllan, Rhanbarth Colwyn. Cydradd 2il - Cangen y Deri, Rhanbarth Ceredigion. Cangen Wrecsam, Rhanbarth Glyn Maelor. 3ydd - Cangen Bro Cyfeiliog, Rhanbarth Maldwyn Powys. **Golff:** 1af - Margaret Roberts, Cangen Rhydypennau, Rhanbarth Ceredigion. 2il - Rhiannon Ingam, Cangen Chwilog, Rhanbarth Dwyfor. 3ydd - Mair Jones, Cangen Rhuthun, Rhanbarth Glyn Maelor. **Tenis Bwrdd:**1af - Tîm Rhanbarth Glyn Maelor. 2il - Cangen Llanfyllin, Rhanbarth Maldwyn-Powys. 3ydd - Cangen Llangwm, Rhanbarth Colwyn. **Dewis Dau Ddwrn:** 1af - Clwb Gwawr Glyndŵr, Rhanbarth Maldwyn Powys. 2il - Cangen Blaenffos, Rhanbarth Penfro. 3ydd - Cangen Pencader, Rhanbarth Caerfyrddin.

Eisteddfod yr Urdd Sir Conwy 2008
Cafwyd Eisteddfod yr Urdd lwyddiannus iawn yn Sir Conwy. Cerdd gan Myrddin ap Dafydd oedd thema'r babell, a diolch i aelodau Aberconwy a Cholwyn o dan gyfarwyddyd Gareth Owen am baratoi arddangosfa wefreiddiol. Roedd yr arddangosfa, y blodau a'r croeso yn wych. Bu prysurdeb mawr gydol yr wythnos yn gweini paned a phice ar y maen, ac rydym yn ddiolchgar i swyddogion rhanbarth Aberconwy a Cholwyn ynghyd â gwirfoddolwyr y ddau ranbarth ac Anwen Williams y Swyddog Datblygu am eu gwaith bendigedig.

Sioe Llanelwedd 2008
Clwyd oedd yn noddi Sioe Llanelwedd eleni ac o ganlyniad bu rhanbarthau Colwyn a Glyn Maelor yn cynllunio a threfnu ar y cyd, gan baratoi arddangosfa hyfryd o waith crefft a gyfleodd golygfa o dirlun Dyffryn Clwyd yn safle'r Mudiad yn Neuadd Morgannwg. Diolch i Anwen Williams, Swyddog Datblygu ac i'r holl aelodau a gyfrannodd at y campwaith, a diolch arbennig i'r pedair arbenigwraig sef Llinos Roberts ac Ann Jones, Mary Mars Lloyd a Nia Rowlands am eu gweledigaeth a'u cyfarwyddo. Braf oedd gweld safon arbennig yng nghystadlaethau'r sioe. Rhanbarth Glyn Maelor oedd yn fuddugol, gyda Rhanbarth Arfon yn ail a Rhanbarth Ceredigion yn drydydd. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Gaynor Bryan Jones, Cangen Bryneglwys a Llandegla, Rhanbarth Glyn Maelor a ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth gosod blodau. Daeth Gill Owen, Cangen y Foel, Rhanbarth Maldwyn Powys yn ail a Lilwen Thomas, Cangen San Clêr, Rhanbarth Caerfyrddin yn drydydd. Rhoddwyd cymeradwyaeth uchel i Eirian Roberts, Cangen Llanrhaeadr Y.C, Rhanbarth Glyn Maelor a chymeradwyaeth i Ranbarth Meirionnydd. Da iawn i chi gyd.

Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Cylch 2008
'O'r Bannau i'r Bae' oedd thema cyflwyniad graenus y De-Ddwyrain ar lwyfan y pafiliwn ddydd Mercher yr Eisteddfod. Yn y cyflwyniad (a sgriptiwyd a chynhyrchwyd gan Elenid Jones) soniwyd am daith yr iaith yn y Rhanbarth a datblygiad addysg Gymraeg yno. Yn ystod y perfformiad, cafodd Esyllt Jones ei hurddo'n Llywydd Cenedlaethol am y flwyddyn 2008-2010. Yr un oedd thema'r arddangosfa yn uned y mudiad ar y maes gyda murlun hardd yn darlunio'r daith o'r Bannau i Gaerdydd gan gynnwys hanes merched ifanc a dawnus yr ardal.

Y Wawr
Cyhoeddwyd 4 rhifyn graenus o gylchgrawn Y Wawr o dan lywyddiaeth Siân Lewis, y Golygydd. Diolchwn i'r pwyllgor cyfan am gydweithio yn hapus i sicrhau cylchgrawn diddorol bedair gwaith y flwyddyn. Cydnabyddir gyda diolch y nawdd a dderbynnir gan Gyngor Llyfrau Cymru sy'n cynorthwyo gyda chostau argraffu Y Wawr.

Y Ganolfan Genedlaethol
Eleni eto croesawyd nifer o ganghennau a chlybiau ar ymweliadau â'r Ganolfan yn Aberystwyth a braf ydyw dweud fod nifer o grwpiau a mudiadau yn defnyddio'r Ganolfan. Mae'r swyddfa yn y ganolfan yn dal yn cael ei llogi gan Wasg Honno.

Staff
Cafwyd Cyfarfod staff yng Ngwesty'r Wynnstay, Machynlleth i drafod strategaeth y mudiad. Croesawyd aelod newydd o staff i'n plith sef Eirlys Davies, Swyddog Datblygu Y De-Ddwyrain, gyda Malvina yn parhau i weithio fel Swyddog Datblygu Gorllewin Morgannwg.

ADRODDIADAU'R RHANBARTHAU

RHANBARTH ABERCONWY

Llongyfarchwyd ein Llywydd Anrhydeddus, Mari Roberts ar ei phen-blwydd yn 90oed ac anfonwyd cyfarchion iddi ar y cyfryngau. Mae ei chefnogaeth a'i diddordeb bob amser mor werthfawr. Yn gynnar yn y tymor cynhaliwyd Cwrs Addurniadau Nadolig gyda deunaw aelod o dan arweiniad Mim. Cafodd yr aelodau gyfle i wneud tri addurn. Ymunwyd â chystadleuaeth Bowlio Deg gyda saith tîm yn cystadlu. Mynychodd nifer y Penwythnos Preswyl a gynhaliwyd ym Mangor gydag arlwy amrywiol a diddorol ar ein cyfer.

Cawsom y pleser o groesawu cynrychiolydd o Glwb Gwawr Crwst i'n pwyllgor Rhanbarth a byddent yn lansio'r Clwb wythnos Llanast Llanrwst. Ffurfiwyd pwyllgor i drefnu arddangosfa Eisteddfod yr Urdd, Sir Conwy 2008. Y darn barddoniaeth,'Pererindod'(Lis Jones) a ddewiswyd yn thema - hanes taith plant ysgol i Dŷ Mawr, Wybrnant. Dechreuwyd y gwaith crefft yno, a datblygwyd hyn yn ystod y flwyddyn gyda chanlyniadau pleserus. Cawsom gymorth Canghennau o Ranbarth Colwyn yn ystod yr wythnos, hefyd, ac arian o gronfa'r Loteri 'Arian i Bawb.
Daeth 16 tîm i gystadlu yn y Cwis Cenedlaethol a mwynhawyd lluniaeth i ddilyn yng Ngwesty, 'Fairy Falls, Trefriw. Canghennau Henryd, Mochdre a Llandudno fu'n llwyddiannus.

Cangen Llandudno oedd yn trefnu'r Gwasanaeth Carolau. Crëwyd naws hyfryd dan arweiniad Catherine Watkin ac eitemau gan ganghennau Eglwysbach, Mochdre a Penmachno. Bu nifer yn cystadlu yn y Ffair Aeaf a diolchwn i Mim am ei hanogaeth yn y cwrs.

Yn Ysgol Aberconwy ar 2il Chwefror, cynhaliwyd Ysgol Undydd y Dysgwyr. Canghennau'r Glannau oedd yn sgwrsio â hwynt eleni, a threfnwyd ein raffl arferol. Trefnwyd Noson Chwaraeon hwyliog yn Eglwysbach ac aeth tîm dominos Cangen Capel Garmon ymlaen i'r Ŵyl Haf ym Machynlleth ac ennill yr ail wobr. Gobeithio y bydd hyn yn hwb i ni gael mwy o gystadlu yn y dyfodol.

Bu ein Ffair Haf yn llwyddiant eto eleni gyda Rhiannon Pari'n agor y noson, aelodau'n gwario a chystadlu ac yna'n mwynhau arddangosfa a gwerthfawrogi gwaith Joyce Jones, Cricieth. Enillodd Anwen Gwyndaf ac Ann P. Williams o Gangen Penmachno wobrau am fisgedi brau a gwneud tlysau yn Sioe Llanelwedd. Bu nifer dda yn llwyddiannus yng nghystadlaethau Merched y Wawr mewn sioeau lleol. Mwynhawyd cwmni ein Llywydd Cenedlaethol, Mary Price, mewn gwahanol weithgareddau yn ystod y flwyddyn.
Bu aelodau yn mynychu'r Cwrs Crefft Undydd, yng Ngŵyl y Pump Rhanbarth ac yng Nghinio Llywydd y Gogledd yng Nglan-llyn. Pleser hefyd fu cael bod yn bresennol yn Eisteddfod Genedlaethol, Caerdydd pan urddwyd Esyllt Jones yn Llywydd Cenedlaethol, mwynhau cyflwyniad Rhanbarth y De Ddwyrain a'r Te Croeso i ddilyn.
Parhawn i dapio'r Papurau Bro, Y Pentan a'r Odyn ar gyfer y deillion a llongyfarchwn Gangen Llanddoged ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddeg-ar-hugain oed a Changen Henryd yn ddeugain oed.
Gwerthfawrogwn gefnogaeth Mim, ein Swyddog Datblygu a chefnogaeth swyddogion ac aelodau'r Rhanbarth.

RHANBARTH ARFON

Cawsom flwyddyn lewyrchus arall yn y rhanbarth.

Daeth y Penwythnos Preswyl i Fangor ac ymgymerodd y rhanbarth â threfnu'r gwasanaeth ar y Sul. Diolch i Rhianwen ac Einir am eu gwaith.

Mae'r Pwyllgor Anabl wedi codi swm anferthol unwaith eto drwy gynnal Distawrwydd Noddedig (anodd!!) a Bore Coffi ac wedi cyfrannu £2,920 at Tŷ Gobaith Cymru. Mae'r merched wrthi'n ddiwyd a gweithgar iawn fel arfer gyda chefnogaeth yr holl aelodau.

Cynhaliwyd yr Ysgol Undydd arferol gan Bwyllgor y Dysgwyr (Delyth yn llywio) ym Mis Tachwedd a bu aelodau o'r canghennau yn sgwrsio a chael paned yng nghwmni'r dysgwyr yn ystod y prynhawn.

Daeth llwyddiant mawr i Bwyllgor Celf a Chrefft yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd. Cawsant yr ail wobr haeddiannol ar ôl tymor prysur yn cynnal a mynychu cyrsiau er mwyn gwella sgiliau. Da iawn chi!

Braf yw dweud mai Cangen Penrhosgarnedd gafodd y nifer fwyaf o aelodau newydd drwy Gymru – 14 aelod newydd a bod cangen Tregarth yn drydedd gyda 8 o'r newydd. Daliwch ati i ddenu mwy o aelodau i berthyn i'n Mudiad.

Byddwn yn cynnal cystadleuaeth Llyfr Lloffion yn flynyddol er mwyn cadw ar gof weithgaredd y Mudiad yn Arfon. Eleni Caernarfon daeth i'r brig gyda llyfr chwaethus iawn. Llongyfarchiadau.

Y Rhanbarth fu'n gyfrifol am dapio rhifyn y Gwanwyn o'r Wawr ar gyfer y deillion.
Cymerwyd rhan yn y Cwis Cenedlaethol, y Bowlio Deg a'r Chwaraeon Cenedlaethol a phawb ym mwynhau cwmnïaeth y Rhanbarth ac aelodau drwy'n gwlad. Blwyddyn Dda.

RHANBARTH CAERFYRDDIN
Cynhaliwyd pedwar cyfarfod rhanbarth dan lywyddiaeth Haulwen Booth. Tua deunaw o ganghennau (allan o 31) oedd yn bresennol bob tro a dim un Clwb Gwawr.

Bu prysurdeb ym mis Tachwedd. I ddathlu pen-blwydd rhuddem ein mudiad bu aelodau ein rhanbarth yn ciniawa yn Yr Hanner Ffordd, Nantgaredig nos Fercher, 7fed Tachwedd. Mae ychydig o'r canghennau yn dod i ddathlu eu pen-blwydd hwythau hefyd. Yna ar Sadwrn, 10fed Tachwedd bu Ysgol Undydd Celf a Chrefft yn llwyddiannus gyda thua 80 yn bresennol. Diolch i Mair Evans a'r pwyllgor am drefnu. Ar ddiwedd Tachwedd roedd y Cwis Cenedlaethol ac roedd 24 o dimoedd wedi cystadlu. Tîm Glannau Pibwr oedd enillwyr ein rhanbarth.

Cystadlodd rhai aelodau yn y chwaraeon ym mis Ebrill. Bu canghennau Llandeilo, Capel Iwan, Pencader a Llangadog yn yr Ŵyl Haf a Chlwb Gwawr Llanymddyfri hefyd. Aeth llawer i ginio anrhydeddu ein Llywydd Cenedlaethol Mary Price yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin.

Gweithgaredd blynyddol gennym yw'r Noson Goffi ym mis Mai a chystadleuaeth eitemau ar gyfer y Sioe Fawr yn Llanelwedd.

RHANBARTH CEREDIGION
Cafwyd ymateb da i weithgareddau'r rhanbarth. Pleser oedd cael croesawu dau Glwb Gwawr, sef Y Cnapan a'r Wiber. Trefnwyd gwibdaith i Sir Benfro gan y Pwyllgor Celf a Chrefft. Cystadlodd pedwar tîm a'r bymtheg yn y Cwis Hwyl - Aberystwyth A enillodd a daeth yn gydradd drydydd yn genedlaethol. Cynhaliwyd y chwaraeon yn y Llew Du yn Llanbedr Pont Steffan a chafwyd dwy noson hwylus dros ben a chystadlu brwd. Cangen Bro Cranogwen ddaeth yn gyntaf am gynnydd aelodaeth a chyflwynwyd Tarian Goffa Mair

Kitchener-Davies i'w chadw am flwyddyn. Cyflwynwyd Tystysgrif Genedlaethol i'r gangen hefyd am ddod yn ail drwy dde Cymru. Cynrychiolwyd y Rhanbarth yn dda yn yr Ŵyl Haf ym Machynlleth a daeth llwyddiant i lawer o'r cystadleuwyr. Daeth Rhian Rees, Cangen Bronant, yn un o'r pedwar enillydd a gynlluniodd gerdyn Nadolig 2008. Enillodd y Rhanbarth y drydedd wobr yng nghystadleuaeth Cwpan Radi Thomas yn Sioe Llanelwedd.

RHANBARTH COLWYN

Wedi prysurdeb y tymor blaenorol roedd tymor prysur arall i edrych ymlaen ato. Yn Nhachwedd mwynhawyd cwis hwyl yng Ngwesty Oriel House Llanelwy lle daeth Prestatyn i'r brig gydag Abergele yn agos ar eu hôl. Nid yn unig oedd Prestatyn yn gyntaf yn rhanbarthol ond yn ail yn genedlaethol gydag Abergele yn drydydd yn genedlaethol. Tipyn o gamp.

Mwynhawyd noson Llith a Charol yng Nghapel Jerwsalem Cerrig y Drudion dechrau Rhagfyr wedi ei drefnu gan ein Swyddog Datblygu Anwen Williams. I ddilyn yn y festri roedd paned a mins peis a chyfle i gael sgwrs gyda chyd aelodau.

Cafwyd Sadwrn Siarad llwyddiannus eto eleni gyda swyddogion yn cael y profiad o arwain parti canu parti canu, rhai yn cael gwell llwyddiant nag eraill! Y Dysgwyr yn ddiolchgar o'r amser rydym yn eu rhoi iddynt a ninnau yn falch o'u parodrwydd hwy i ddysgu'r iaith. Mae dysgwyr ym mhob cangen yn y rhanbarth ar unig gŵyn sydd ganddynt ein bod weithiau yn siarad yn rhy gyflym.

Ar ddiwedd mis Mai gwelwyd y rhanbarth yn helpu ym mhabell y mudiad ar faes Eisteddfod yr Urdd Dyffryn Conwy. Mwy o gacennau cri!. Roedd ein Gŵyl Rhanbarth ar ddechrau Mai yn dwyn y teitl 'Pennill, Bwyd a Chân' yng nghwmni Myrddin ap Dafydd, Jen Roberts, Llangernyw a George Jones, Llanrwst. Noson llawn hwyl. Cynhaliwyd Sadwrn Hwyl ym Machynlleth lle gwahoddwyd ein haelodau i stondin y mudiad yn Llanelwedd. Enillwyd sawl gwobr gan aelodau ein rhanbarth.

Gan i Clwyd fod yn noddi'r Sioe Fawr eleni roedd llawer o ofynion ar y rhanbarth ynghyd â rhanbarth Glyn Maelor. Mwynhawyd y profiad yn fawr iawn. Roedd Llinos Roberts ag Ann Jones o ranbarth Colwyn a Mary Mars Lloyd o ranbarth Glyn Maelor wedi bod yn brysur iawn gyda'r aelodau yn paratoi murlun o waith cain yn dilyn taith yr Afon Clwyd o'i chychwyn lawr i'w gorffen yn Y Rhyl. Gobeithio wir fydd cartref teilwng i'r cywaith yma o waith y ddau ranbarth.

Blwyddyn brysur dros ben ac i goroni'r cyfan cafodd Mererid Jones, Abergele ei henwebu yn Is-lywydd Cenedlaethol; y cyntaf o'r rhanbarth i dderbyn y fath anrhydedd. Llongyfarchiadau calonnog iddi. Diolch am bob cefnogaeth yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

RHANBARTH Y DE-DDWYRAIN

Roedd y Cwis Hwyl yn llwyddiannus iawn gyda rhyw 12 tîm yn cymryd rhan. Casglwyd £1 y pen ar y noson i 'Cymorth i Ferched' a llwyddwyd i godi £70. Darparwyd bwyd gan y pwyllgor. Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith fod tîm o gangen Bro Radur wedi ennill y gystadleuaeth yn genedlaethol.

Cawsom noson hyfryd iawn ar 3ydd Rhagfyr pan ddaeth rhyw 120 o ferched y rhanbarth i'r Gwasanaeth Nadolig a drefnwyd gan Gangen Tonysguboriau. Casglwyd £272.20 tuag at drosi 'Hoff Gerddi Cymru' i Braille.

Ar Ebrill 5ed aeth nifer o aelodau'r rhanbarth i ginio Llywydd yn y De a gynhaliwyd yng Nghanolfan Halliwell, Caerfyrddin.

Cynhaliwyd Noson Goffi'r rhanbarth nos Wener, Ebrill 25ain yn Tabernacl, Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, Holton Road, yng nghanol y dre. Diolch i gangen y Barri am drefnu'r noson. Roedd pawb wedi mwynhau, a gwnaethpwyd £250 o elw.

Trefnwyd bws gan gangen Bro Radur i'r Cyfarfod blynyddol a'r Ŵyl Haf yn Ysgol Bro Ddyfi, ddydd Sadwrn, Mai 17eg. Teithiodd criw da o'r rhanbarth i Fachynlleth, a mwynheuodd pawb y diwrnod. Gwobrwywyd buddugwyr y Cwis Hwyl Genedlaethol, sef tîm o gangen Bro Radur. Daeth lluniau Jen MacDonald o gangen Y Garth yn ail yn y gystadleuaeth ffotograffiaeth, a byddant nawr yn mynd ymlaen i'r Ffair Aeaf.

Ddydd Sadwrn, Mehefin 14eg, trefnwyd stondin Merched y Wawr yng Ngŵyl Tafwyl, Caerdydd. Mynychodd aelodau o ganghennau Pen-y-bont a Chasnewydd Sadwrn Hwyl yn Abertawe. Byddai mwy wedi mynychu heblaw am y ffaith bod Tafwyl ar yr un diwrnod.

Heb os, uchafbwynt y flwyddyn a aeth heibio oedd yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd. Roedd cyflwyniad Merched y Wawr, Rhanbarth y De-ddwyrain, O'r Bannau i'r Bae yn dilyn hynt yr afonydd o'r Cymoedd i'r Bae, ac yn adlewyrchu hanes yr ardal a thrai a llanw'r iaith ynddi. Dilynwyd yr un thema wrth addurno'r babell, a braf oedd cael help Ysgol Plasmawr. Yn ogystal, gwnaethpwyd casgliad o wybodaeth a lluniau am hanes merched Caerdydd o'r gorffennol i'r presennol.

Sefydlwyd dau Glwb Gwawr ym Mhen-y-bont a Gartholwg, a Dwy gangen o Ferched y Wawr yn Y Fenni a Chaerffili / Ystrad Mynach.

Hoffem groesawu Eirlys Davies, ein Swyddog Datblygu newydd, gan ddiolch iddi am ei gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a dymuno pob hwyl iddi yn y flwyddyn sydd i ddod.

RHANBARTH DWYFOR

Cychwynnwyd y tymor newydd drwy ddathlu Dydd Owain Glyndŵr yng Ngwesty Mynydd Ednyfed, Cricieth, gyda Mary Price, Llywydd Cenedlaethol, yn wraig wadd; cafodd pawb eu gwala a'u gweddill o ran bwyd a sgwrs ddiddorol. Ddyddiau'n ddiweddarach, paciodd amryw o aelodau'r Rhanbarth eu bagiau i fynd i'r Penwythnos Preswyl ym Mangor ble cawsant amser hwyliog a thywydd braf i fwynhau'r arlwy a drefnwyd ar eu cyfer.

Mwynhaodd dau ddwsin o'r Clwb Cerdded penwythnos cerdded yn ardal y Peaks, Swydd Derby, dan arweiniad Ann Stephens Jones, Olwen Rhys a Meryl Davies, ym mis Hydref. Cafwyd dwy daith hyfryd, ynghyd â chyfle i siopa, ymweld â gerddi a phlasty mawreddog Chatsworth a bwyta…

Mynychodd deg aelod cwrs crefft addurniadau Nadolig dan ofal Mim, ein Swyddog Datblygu, yn Neuadd Chwilog yn ystod y mis hefyd; clywyd bod coed Nadolig hardd iawn yma ac acw yn y Rhanbarth!

Un o dimau cangen Abersoch ddaeth i'r brig yn y Cwis Hwyl a gynhaliwyd yng Nghanolfan Penmorfa a chodwyd £108.00 at Hosbis yn y Cartref drwy'r raffl.

Aelodau cangen Pencaenewydd a'r Cylch ofalodd am drefnu gwasanaeth carolau'r Rhanbarth a gynhaliwyd yng nghapel y pentref; cymerwyd rhan gan aelod o fwyafrif o'r canghennau. Gwyneth Jones oedd yr arweinydd gyda Kathleen Roberts wrth yr organ. Cyfunwyd y

casgliad o £248.00 ag un noson y cwis hwyl i'w gyflwyno i Hosbis yn y Cartref yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Bu Ysgol Undydd y Dysgwyr yn llwyddiant unwaith yn rhagor. Cynhaliwyd y twrnamaint bowlio deg yng Nghanolfan Glasfryn ddiwedd Ionawr ac aeth pedwar tîm o'r Rhanbarth ymlaen (Llanaelhaearn, Llaniestyn, Mynytho a ?), i'r gystadleuaeth Pedwar Rhanbarth (Aberconwy, Arfon, Dwyfor a Meirionnydd) a daeth cangen Mynytho'n drydydd ar y noson. Enillodd Nia Llewelyn Jones, cangen Llaniestyn, y darian am yr aelod â'r marciau unigol uchaf.

Tapiwyd *Y Wawr* ar gyfer y deillion gan Anna Jones (Abersoch), Margiad Elias (Cricieth), Gwyneth Llewelyn Jones (Morfa Nefyn), Mari Evans a Marilyn Lewis (Pwllheli).

Cynhaliwyd noson chwaraeon yn Neuadd Mynytho a chynrychiolwyd y Rhanbarth yn y Chwaraeon Cenedlaethol ym Machynlleth gan dîm dominos a chwist.

Cangen Pwllheli a orfu yn yr Ŵyl Wanwyn gyda Margaret Griffith, o'r un gangen, yn ennill y darian am y marciau unigol uchaf. Cyflwynwyd tystysgrif cynnydd aelodaeth i gangen Abersoch – daeth yn drydydd trwy'r gogledd/Cymru am ennill naw aelod newydd.

Mynychodd rhai o'r aelodau Ŵyl y Pum Rhanbarth yn Ysgol Friars, Bangor, y Cyfarfod Blynyddol a'r Chwaraeon ym Machynlleth. Diweddwyd y flwyddyn gyda Gŵyl Haf y Dysgwyr a thaith breswyl i Sempringham a drefnwyd gan Mair Lloyd Davies a Lena Pritchard.

Dathlodd amryw o ganghennau eu deugain yn ystod y flwyddyn.

RHANBARTH GLYN MAELOR

Daeth blwyddyn arall lwyddiannus i ben yn hanes Merched y Wawr, Rhanbarth Glyn Maelor. Cafwyd pwyllgorau Rhanbarth ym mis Hydref a mis Ebrill ar nos Lun a phenderfynwyd eto eleni gynnal pwyllgor mis Ionawr ar fore Sadwrn rhag ofn tywydd drwg ac o gymorth i'r aelodau sy'n teithio bellaf i Lysfasi.

Mwynhawyd y Cwis Hwyl a gynhaliwyd yn Nol y Wern, a chafwyd bwyd bendigedig i ddilyn. Trefnwyd Llith a Charol yng Nghapel y Groes, Wrecsam ddechrau Rhagfyr ar noson wlyb iawn.

Beth gawn ni'n Ŵyl Ranbarth?" Beth am drefnu gwibdaith i Sempringham i weld bedd Gwenllïan?" meddai rhywun ac felly y bu. Y bore'n dilyn Etholiadau'r Cynghorau Sir, cychwynnodd criw ohonom ar drywydd Gwenllian. Wedi seremoni fer wrth y gofeb, safasom mewn cylch yn dal dwylo a chanu Can y Mudiad a'r Anthem Genedlaethol. Teimlem yn bell o gartref gan sylweddoli i Gwenllian gael ei hanfon yno i'r cwfaint yn fabi ac yno bu farw yn 54 oed, heb wybod dim mai hi oedd merch Llywelyn, Tywysog Cymru.

Tro Sir Clwyd oedd noddi Sioe Llanelwedd eleni. Cafwyd cyfle eto i gyd-bwyllgora a chyd-weithio gydag aelodau Rhanbarth Colwyn a bu'n brofiad braf iawn. Rhanbarth Colwyn fu'n croesawu ac yng ngofal y paned ddydd Llun a dydd Mawrth a Glyn Maelor ddydd Mercher a dydd Iau. Bu criw o'r aelodau wrthi'n ddyfal yn paratoi murlun o'r dyffryn i'w arddangos ar y wal. Roedd yn waith medrus iawn a mawr fu'r canmol.

Cafwyd noson Chwaraeon yn Ysgol Brynhyfryd, a llongyfarchiadau i dîm Dinbych gyda'r Badminton a Gwenan a Carys gyda'r Tenis Bwrdd yn y cystadlaethau Cenedlaethol ym Machynlleth.

Llongyfarchiadau i Gaenor B.Jones, am ennill y tlws yn yr adran gosod blodau i aelodau Merched y Wawr ac i Mari, Rhiannon, Glenys a Morfudd am gynrychioli'r Rhanbarth a dod yn fuddugol gyda'r arddangosfa. Y tro cyntaf i Ranbarth Glyn Maelor ennill.
Eisteddfod yr Urdd yn Rhuthun yn 2006, Eisteddfod Genedlaethol yn yr Wyddgrug yn 2007,Sir Clwyd yn noddi'r Sioe yn 2008
Aelodau Glyn Maelor siawns y cewch lonydd o baratoi cacennau cri am rai blynyddoedd - gobeithio!!

ADRODDIAD GORLLEWIN MORGANNWG
Dan lywyddiaeth Mair Morgan, cangen y Gwter Fawr, cafwyd blwyddyn arall ddifyr yn rhanbarth Gorllewin Morgannwg. Pleser arbennig ddechrau'r flwyddyn oedd cael croesawu cangen Clydach yn ôl atom, a diolch o galon i Annette Thomas am ei hymroddiad yn ail-sefydlu'r gangen. Roeddem wrth ein bodd yn ogystal i ddeall fod Clwb Gwawr wedi agor trwy gymorth Menter Iaith Castell Nedd Porth Talbot yng Nghwm Tawe, ac yna'n hwyrach yn y flwyddyn agorwyd Clwb Gwawr yr Elyrch yn Abertawe.
Fodd bynnag roeddem hefyd yn tristau wrth ffarwelio â dwy swyddog rhanbarth hynod weithgar. Ymddeolodd Malvina Ley o swydd Swyddog Datblygu wedi blynyddoedd o wasanaeth ac yn yr un modd daeth tymor hir Pam John fel Trysorydd i ben. Roedd hi'n braf gweld cymaint o'r aelodau wedi ymgasglu yn y Manor Park, Clydach, i ddiolch i'r ddwy am eu cyfraniadau amhrisiadwy ac i'w hanrhegu. Cyfansoddodd Ann Rosser englyn yr un iddynt a chafwyd teyrnged ysgafnach ar gân gan Catrin Stevens a Margaret Jones. Unwaith eto coginiodd ac addurnodd Teifina Davies deisen ddathlu hyfryd ar gyfer y noson. Janette Jones, Cangen Castell Nedd sy wedi ymgymryd â swydd Trysorydd Rhanbarth.

Cynhaliwyd y Cwis Hwyl Genedlaethol yn y Bar Gallois, Aberafan, unwaith eto eleni ac er na chafwyd yr un llwyddiant cenedlaethol daeth y canghennau hyn i'r brig: 1af - Y Gwter Fawr; 2il - Afan; 3ydd - Treboeth, Pontarddulais 1 a Phontarddulais 2. Llongyfarchiadau iddynt.

Unwaith eto trefnwyd taith gerdded y rhanbarth, y tro hwn yn ardal Clydach dan arweiniad Nest Davies ac Annette Thomas. Y ddwy gangen hon fu'n weithgar yn gweini te hefyd. Yn ystod yr un bore cynhaliwyd cystadleuaeth celf a chrefft y rhanbarth gogyfer â Sioe Llanelwedd a dyfarnwyd mai gemwaith Monica Evans, teisen frau Grace Birt, poster cyfrifiadurol Ann Rosser ac eitem o hen jîns Esyllt Jones fyddai'n ein cynrychioli. Diolch i bawb fu'n beirniadu ac yn cystadlu. Braf adrodd i'r tîm hwn wneud yn dda yn y Sioe Fawr ac i Monica gael marciau llawn am ei champwaith. At hyn dyfarnwyd 5 ffotograff o ferched wrth eu gwaith gan Grace Birt yn orau yn y rhanbarth ac yn fuddugol yn genedlaethol yn yr Ŵyl Haf. Yn wir cyflawnodd Grace y gamp lawn eleni trwy ddod i'r brig yn ogystal ar gynllunio cerdyn Nadolig ar gyfer 2008 - llongyfarchiadau mawr iddi hi ac i'r holl gystadleuwyr eraill. Yn yr Ŵyl Haf bu cangen Gorseinon yn cystadlu ar y meim a'r band gan ddod yn ail am eu dehongliad o 'Sosban Fach' fel meim.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn mae'n debyg oedd y Sadwrn Hwyl a gynhaliwyd yng Nghanolfan Dylan Thomas Abertawe ar brynhawn Sadwrn braf ym Mehefin. Daeth dros 80 o aelodau i fwynhau'r arlwy o fwyd da a siaradwyr diddorol. Fe'n diddanwyd ac fe'n haddysgwyd gan yr Athro Sioned Davies yn sôn am y Mabinogion; Tim Lewis yn egluro 01celfyddyd gwydr lliw a Dr Gwenno Ffrancon yn olrhain gyrfaoedd dwy eicon y sgrin fawr sef Rachel Thomas a Siân Phillips. Yna i orffen cafwyd awr yng nghwmni Gillian Elisa wrth iddi egluro yn ddwys ac yn ddoniol sut yr aeth ati i ysgrifennu ei hunangofiant. Roedd hi'n braf cael cwmni ein Llywydd Cenedlaethol, Mary Price, yn y digwyddiad hwn.

Ar ddiwedd y tymor fe'n gwahoddwyd fel rhanbarth i greu cyflwyniad byr i gyfarch Esyllt Jones wrth iddi ymgymryd â llywyddiaeth y mudiad yn 2008-10. Paratowyd cyflwyniad ar y

thema ‘Clytwaith’ gan mai dyma un o’i diddordebau a daeth rhyw 15 o aelodau’r rhanbarth ynghyd i’w gyflwyno yn ystod te’r mudiad ar brynhawn Mercher yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Edrychwn ymlaen yn awr at gyfnod Esyllt wrth y llyw a dymunwn yn dda iddi wrth iddi ymgymryd â’r ‘barchus arswydus swydd’.

RHANBARTH MALDWYN POWYS

Cafwyd dechreuad gwych i’r tymor newydd gydag aelodau’r rhanbarth yn troi am Bro Cyfeiliog lle cynhaliwyd yr Ŵyl Rhanbarth, cawsom brynhawn braf yng nghwmni Jim Lloyd o’r rhaglen ‘Twrio’ yn dangos casgliad o lestri Abertawe ac yn trafod nifer o eitemau’r aelodau, ac i goroni’r prynhawn mwynhawyd y wledd a drefnwyd gan aelodau Bro Cyfeiliog.
Daeth 8 tîm i gystadlu yn y Cwis Hwyl gyda Llanfyllin yn fuddugol, Llanfair Caereinion yn ail a’r Drenewydd yn 3ydd.
Ym mis Rhagfyr, eglwys hynafol St. Dogfan, Llanrhaeadr ym Mochnant oedd y lleoliad ar gyfer ein Gwasanaeth Nadolig, cymerwyd rhan gan 7 cangen o flaen cynulleidfa deilwng, roedd paned a mins pei i bawb ar derfyn y gwasanaeth.
Trefnwyd ‘Gyrfa Chwilod’ gan yr Is-bwyllgor Iaith a Gofal yng Ngwesty’r Dyffryn ym mis Chwefror, cafwyd noson hwyliog dros ben gyda nifer o ddysgwyr ac aelodau yn bresennol, ac fel arfer cafwyd swper blasus i gloi’r noson.
Bu’r Ŵyl Haf yn un llwyddiannus iawn i’r Rhanbarth gyda nifer yn fuddugol ar sawl cystadleuaeth, gosodwyd cangen Bro Cyfeiliog yn gyntaf am y Rhaglen orau ac ar y llwyfan yng nghystadleuaeth ‘Band unrhyw ystafell yn y tŷ’ aeth y wobr gyntaf i Bro Ddyfi, yr ail wobr i Lanfyllin ac yn gydradd drydydd roedd cangen Y Foel. Llwyddiant hefyd yn y chwaraeon, aeth y wobr gyntaf i Bro Ddyfi yn y Bowlio Dan Do, daeth Llanfyllin yn 3ydd yn y Badminton, Bro Cyfeiliog hefyd yn 3ydd gyda Gyrfa Chwist Cymar, yn chwarae Tennis Bwrdd ac yn dod yn ail roedd Llanfyllin, ac yn Dewis Dau Ddwrn roedd Clwb Gwawr Glyndŵr yn fuddugol.
Bu nifer o’r aelodau yn cystadlu yn y Sioe Fawr, gyda’r rhanbarth yn dod yn 7fed.

RHANBARTH MEIRIONNYDD

Anodd iawn yw crynhoi digwyddiadau Meirionnydd am y flwyddyn ddiwethaf gan mai Mena Jones, ein hysgrifennydd diwyd, a drefnodd y cyfan ac yn ddisymwth iawn bu farw ddechrau Medi 2008. Un o ddwy gyd is-ysgrifennydd oeddwn i fod gan fod gennyf flwyddyn bersonol brysur iawn eleni, ond fe symudodd yr is-ysgrifennydd arall i ffwrdd ym mis Ebrill. Nid oedd rhaid poeni gan y gwyddwn y byddai Mena yn gefn imi, ond nid felly y bu. Erbyn hyn mae gennyf is-ysgrifennydd ac fe geisiaf adrodd yn ôl fel y bu’r digwyddiadau.

Ym mis Medi aeth cynrychiolaeth dda i’r Penwythnos Preswyl ym Mangor a chafwyd adroddiad cryno yn ein pwyllgor rhanbarth gan Sylwen Davies ac anogodd Sylwen y rhai oedd heb fod - ei fod yn brofiad gwerth chweil.

Cynhaliwyd ein Gŵyl Rhanbarth ar ffurf Talwrn y Beirdd ym mis Hydref. Tîm Merched y Berwyn ddaeth yn fuddugol, Tîm Cadair Idris yn ail a Thîm Godre’r Aran yn drydydd, hyn dan arweiniad hwyliog Meuryn y noson, Twm Morys. Rhoddodd ddeg marc am waith Deilwen Evans, Trawsfynydd, sef cân o foliant i Feirionnydd, ac am waith Sioned Huws, Glanrafon am ei chân ar y testun ‘Picl’. Cynhaliwyd y Cwis Hwyl 2007 yn Y Bala a thîm 3 Cangen y Bala ddaeth yn fuddugol gan ddod yn gyntaf drwy Gymru. Cangen Corris ddaeth yn ail a Thrawsfynydd a Llanuwchllyn yn gydradd drydydd. Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Llith a Charol yn Nhrawsfynydd gyda’r casgliad yn mynd tuag at hosbis Tŷ Gobaith yng Nghonwy. Cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned a mins pei wedi’r oedfa.

Gan y bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i’r Bala yn 2009 penderfynwyd ein body n cyfrannu punt y pen tuag at wobrau ac yn cynnal Ocsiwn Addewidion tuag at y costau.

Cynhaliwyd yr Ocsiwn Addewidion yn neuadd Rhydymain ar Ebrill 30 ac fe wnaed elw sylweddol gan gael llawer o hwyl yn sgil hynny.

Cyflwynwyd Tlws Cynnydd Aelodaeth i gangen Tywyn ar ennill tair o aelodau newydd yn ystod y tymor. Bu nifer o'r aelodau yn ŵyl Haf ym Machynlleth. Cangen Deudraeth ddaeth yn drydydd am y rhaglen orau gyda chanmoliaeth i gangen Bryncrug. Daeth Clwb Gwawr y Gwyniaid yn ail yn yr ornest Badminton.

Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd: Llongyfarchwyd Mair Penri ar dderbyn medal T.H.Parry Williams ac i Mair Roberts, Bryncrug ar ddod yn fuddugol ar yr unawd i rai dros 60. Daeth llwyddiant i lawer yn y Sioe Frenhinol hefyd, ac yn y Sioe Sir a gynhaliwyd yn Y Bala ddiwedd Awst.

Mae tri is-bwyllgor yn brysur drwy'r flwyddyn gyda gwaith Iaith a Gofal, Celf a Chrefft yn paratoi tuag at Sioeau Llanelwedd a'r Sioe Sir a'r Pwyllgor Chwaraeon yn cadw pawb yn heini. Cafwyd taith gerdded arbennig yn ardal y Bermo eleni. Cyfeiriwyd at lwyddiant y Badminton uchod ac fe ddaeth cangen Llanuwchllyn yn fuddugol ar Fowlio Deg yn y rhanbarth gan fynd ymlaen i gystadleuaeth newydd rhwng tri rhanbarth a llwyddo i ddod yn ail yno.

Rydym yn ffodus iawn o gael Mim Roberts, ein Swyddog Datblygu, yn byw yn lleol ac mae bob amser yn barod i gynorthwyo, i gynghori ac i ateb cwestiynau heb oedi. Un arall o'n merched lleol yw Lowri Rees Roberts sydd wedi ei phenodi fel Swyddog Hyrwyddo Clybiau Gwawr y Gogledd ac fe fydd y mudiad yn elwa o un mor llawn bywyd a brwdfrydedd.

Rydym yn paratoi ac yn edrych ymlaen at weld pawb yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Y Bala.

RHANBARTH MÔN

Yn ystod y flwyddyn cafwyd nifer o lwyddiannau ar raddfa genedlaethol ym Môn – enillodd Clwb Gwawr Gors Goch yr ail wobr am lunio rhaglen y flwyddyn. Daeth Cangen Talwrn yn gydradd ail yn y Cwis Hwyl Cenedlaethol a chafodd Valerie Owen, Cangen Amlwch yr ail wobr yng nghystadleuaeth 'Sgwrs ar dâp' i ddysgwyr.

Ym mis Tachwedd 2007 cafwyd diwrnod o wledda ym Môn i ddathlu pen-blwydd y mudiad ar yr ynys yn ddeugain oed. Trefnwyd dau ginio yng Ngwesty Bae Trearddur, un ganol dydd a'r llall gyda'r nos, gydag adloniant i ddilyn y ciniawa. Daeth tua dau gant o aelodau ynghyd â diolch i'r swyddogion am addurno'r ystafell yn deilwng o ddathliad rhuddem ac i Gracie Williams am wneud dwy deisen. Mwynhawyd cwmni'r Llywydd Cenedlaethol ac fe'n hysbrydolwyd ni gan ei hanogaeth i ddatblygu tuag at y dathliad nesaf.

Yn ystod y flwyddyn cafwyd Diwrnod Crefft lwyddiannus o addurniadau'r Nadolig a mwynhawyd y Cwis Hwyl. Mynychodd rhai o'r aelodau'r Ŵyl Haf ym Machynlleth a'r Penwythnos Preswyl yn Llanbedr Pont Steffan. Yn anffodus gwelwyd dwy gangen yn cau, ond llwyddodd yr aelodau brwd oedd yn weddill i fynd i ganghennau cyfagos. Bu sawl cangen yn llwyddiannus yn ennill arian o Gronfa'r Loteri, Arian i Bawb. Mae'r aelodau'n falch o gefnogi dysgwyr a mynychodd ugain ohonom Ysgol Undydd i sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i sgwrsio gydag ystod eang o bobl. Rhoddir cefnogaeth hefyd i sawl bore coffi lleol i ddysgwyr, a gynhelir ar draws yr ynys.

Manteisiodd nifer o fudiadau ar haelioni Merched y Wawr Môn yn ystod y flwyddyn gan fod arian wedi'i godi trwy wahanol weithgareddau: Cyfrannwyd £330.00 at Blant Mewn Angen yn y Cinio Dathlu; £316.10 tuag at Ymchwil Cancr y Fron yn y Gwasanaeth Nadolig ym Mhorthaethwy, £2627.35 tuag at Gronfa Ymchwil i Gancr yr Wygell yn dilyn Taith Gerdded

Mehefin 2007 yn ardal Moelfre. Mae hyn yn cynnwys £500.00 gan fanc HSBC. Cyfrannwyd £418.01 i'r Ambiwlans Awyr yn dilyn Sioe Ffasiwn a drefnwyd gan y Llywydd a'r Ysgrifennydd. Cyfrennir yn y dyfodol agos £2168.20 tuag at Hosbis yn y Cartref yn dilyn Taith Gerdded, Gorffennaf 2008 yn ardal Niwbwrch. Mae'r swm hwn eto'n cynnwys £500.00 gan fanc HSBC.

Diolch i'r Llywydd a'r Ysgrifennydd diwyd sydd wedi dod i ben eu tymor yn eu swyddi ac i'r Trysorydd sy'n parhau am flwyddyn arall. Buom yn ffodus o gael dwy aelod o Glwb Gwawr yn cytuno i fod yn is-swyddogion.

RHANBARTH PENFRO

Fel y soniwyd yn yr Adroddiad diwethaf, bu marwolaeth annisgwyl Eirlys Davies yn ergyd drom i'r Rhanbarth, ac oherwydd hyn dileuwyd y Pwyllgor Rhanbarth ym Mis Medi. Cafwyd munud o dawelwch er cof am Eirlys yn ein pwyllgor cyntaf, fis Tachwedd. Pasiwyd y noson honno i wneud cyfarfod cynta'r flwyddyn nesaf (Medi 2008) yn un agored i'r holl aelodau a chynnal swper i ddathlu bywyd Eirlys)

Mae cynrychiolaeth dda o'r aelodau yn mynychu'r Pwyllgorau Rhanbarth. Yn ystod 2007-2008 cynhaliwyd y cyfarfodydd ym Mlaenffos, Hwlffordd a Chapel Newydd. Diolch yn fawr i Elizabeth Evans am ei phresenoldeb a'i chymorth parod ymhob un.

Cafwyd noson lwyddiannus arall yng Nghaffi Beca pan fu nifer dda o dimoedd yn cystadlu yn y Cwis Hwyl Cenedlaethol. Cangen Blaenffos fu'n fuddugol yn y Rhanbarth.

Yn ystod y Gwanwyn cynhaliodd bedair cangen fore coffi 'Pobi dros Bopath'. Trosglwyddwyd swm o £1315 er budd Canolfan Therapi Plant Cymru.

Casglwyd nifer fawr o lyfrau o fewn y Rhanbarth tuag at ymgyrch 'Diwrnod y Llyfr', ac fe aethpwyd â hwy i'r siopau elusen lleol.

Ar y Sadwrn olaf ym Mis Mawrth aeth parti o aelodau'r Rhanbarth i Lanbedr Pont Steffan i adrodd pwnc fel rhan o wasanaeth Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd, oedd yn dathlu 75 mlynedd. Roedd y gwasanaethau wedi ei drefnu gan Nan Lewis yn y De.

Aeth nifer dda o aelodau'r Rhanbarth i Fachynlleth i gystadlu yn y Chwaraeon yn yr Ŵyl Haf. Llongyfarchiadau i'r timoedd fu'n fuddugol.

Bu'r rhanbarth yn cystadlu eto eleni yng Nghystadleuaeth Cwpan Radi Thomas yn Sioe Llanelwedd. Diolch i'r aelodau fu wrthi.

Mae'r canghennau yn parhau i ddarllen y ddau bapur bro, 'Clebran' a'r 'Llien Gwyn' ar dâp at wasanaeth y deillion bos mis.

Edrychwn ymlaen at flwyddyn arall o gymdeithasu a chydweithio er budd y Mudiad.

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION DATBLYGU

SWYDDOG DATBLYGU Y DE-DDWYRAIN A GORLLEWIN MORGANNWG
Malvina Ley

Bu'n flwyddyn brysur a phleserus iawn. Ym mis Hydref cynhaliwyd cinio gan Ranbarth Gorllewin Morgannwg i ddiolch i Pamela John oedd yn ymddeol o'i swydd fel Trysorydd y rhanbarth wedi deng mlynedd o wasanaeth clodwiw ac i minnau oedd wedi mynegi dymuniad i ymddeol. Cafwyd noson hyfryd ac mae'r ddwy ohonom yn diolch yn ddidwyll iawn i holl aelodau'r rhanbarth am y teyrngedau a'r dymuniadau da.

Bu Rhanbarth Gorllewin Morgannwg a'r De-ddwyrain yn cymryd rhan yn y Cwis Hwyl. Cafodd Rhanbarth Y De-ddwyrain noson lwyddiannus iawn wrth i dîm o Gangen Bro Radur ennill yn genedlaethol unwaith eto. Llongyfarchiadau mawr iddynt.
Llawenydd mawr i Ranbarth Gorllewin Morgannwg oedd ail-sefydlu Cangen Clydach. Hefyd sefydlwyd Clwb Gwawr Cwm Tawe yng Ngorllewin Morgannwg a Chlwb Gwawr Ogwr a Chlwb Gwawr Gartholwg yn Rhanbarth Y De-ddwyrain. Gobeithio y byddant yn llwyddiannus i gyd.

Gwaith pleserus iawn oedd gwasanaethu yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd unwaith eto. 'Roedd y ddwy gystadleuaeth yn rhagorol a nifer dda wedi cystadlu. Mynychais Wasanaeth Carolau Rhanbarth Y De-ddwyrain ym mis Rhagfyr. Cangen Tonysguboriau oedd yn gyfrifol am baratoi'r gwasanaeth a bu naws hyfryd i'r noson.
Bu aelodau Rhanbarth Gorllewin Morgannwg yn cyd-weithio â Menter Iaith Abertawe i gynnal bore coffi i ddysgwyr y ddinas.
Cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd ym mis Awst eto a bûm yn mynychu pwyllgorau cynnar y rhanbarth i ddechrau paratoi at yr Ŵyl. Mynychais gwrs Cymorth Cyntaf, Trafod â Llaw a Hylendid Bwyd. Ym mis Ionawr mynychais lansiad Strategaeth Sector Gwirfoddol Bwrdd yr Iaith yn Abertawe. Bûm yn ymweld â Changen Cwmgors.
Mynychodd nifer o aelodau Rhanbarth Gorllewin Morgannwg gwrs crefft y De yn Llanbed a chawsom ddiwrnod difyr dros ben.
Bu newid yn nhiriogaeth fy swydd ym mis Mai pan apwyntiwyd Eirlys Davies yn Swyddog Datblygu Rhanbarth Y De-ddwyrain. Llawenydd mawr oedd hyn a hyfryd yw cael y cyfle i gyd-weithio â'n gilydd. Pob llwyddiant iddi yn y gwaith. Mae fy niolch yn fawr i holl swyddogion Y De-ddwyrain y cefais y fraint o gyd-weithio â hwynt, am y cydweithrediad parod a'r cyfeillgarwch a gefais ganddynt. Rhanbarth Gorllewin Morgannwg yn unig sydd dan fy ngofal yn awr.
Ar fore hyfryd ym mis Ebrill bu nifer o aelodau Rhanbarth Gorllewin Morgannwg yn cadw'n heini ar daith gerdded yn ardal Clydach a dysgu mwy am hanes yr ardal. Braf oedd gweld bod nifer dda o aelodau wedi cystadlu ar gystadlaethau Sioe Llanelwedd. Pleser oedd llongyfarch yr enillwyr a aeth ymlaen i arddangos eu gwaith yn y Sioe ym mis Gorffennaf a gwneud yn dda iawn yna.
Cafwyd amser pleserus iawn wrth i ni gynnal ein cinio blynyddol yng nghwmni Mary Price y Llywydd Cenedlaethol, yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin. Daeth nifer fawr o aelodau'r pum rhanbarth ynghyd i wledda a Peter Hughes Griffiths a dwy fyfyrwraig o'r coleg yn ein diddanu.
Ym mis Mehefin, cafodd aelodau Rhanbarth Gorllewin Morgannwg a nifer o aelodau Rhanbarth Y De-ddwyrain oedd wedi ymuno â ni, Sadwrn llawn hwyl yng Nghanolfan Dylan Thomas, Abertawe. Bu'r Athro Sioned Davies yn sôn am y Mabinogi, Tim Lewis yn dangos crefft gwydr lliw, Dr. Gwenno Ffrancon yn sôn am "Y Fam Gymreig ar y sgrin" a Gillian

Elisa'n hyrwyddo'i llyfr "Hyd yn Hyn". Diwrnod llwyddiannus a phawb wedi mwynhau yn fawr.
Cefais gyfle i fynychu cyfarfod Archif Menywod Cymru yn Amgueddfa'r Glannau a chyfarfod pontio i'r dysgwyr dan nawdd Fwrdd yr Iaith yn Abertawe.
Uchafbwynt y flwyddyn i Ranbarth Gorllewin Morgannwg oedd i aelod o'r rhanbarth sef Esyllt Jones gael ei hurddo yn Llywydd Cenedlaethol y Mudiad yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd ym mis Awst. Bu nifer o'r aelodau dan arweiniad Catrin Stevens yn talu teyrnged iddi yn ystod y te prynhawn. Dymunwn bob llwyddiant iddi yn ystod y ddwy flynedd - mae'r rhanbarth yn falch iawn ohoni.
Mae fy niolch yn fawr i swyddogion ac aelodau'r rhanbarth am frwdfrydedd a chydweithrediad parod.

SWYDDOG DATBLYGU GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU
Anwen Williams
Yn dilyn blwyddyn lawn o weithgareddau Dathlu'r Deugain dechreuodd y tymor newydd hwn yn llawn prysurdeb a'r bwrlwm arferol yn y ddau Ranbarth, gyda digwyddiadau diddorol ac amrywiol ym mhob cangen. 'Rwyf hefyd wedi ymweld â rhai canghennau a chael nosweithiau difyr yn eu cwmni.

Yn yr Hydref bûm yn cydweithio â staff Menter Iaith Sir Ddinbych yn cynorthwyo gyda threfniadau Wythnos Cymraeg yn Gyntaf. Cafwyd wythnos lwyddiannus unwaith eto gyda llawer o weithgareddau amrywiol i bob oedran ac yn arbennig i'r Dysgwyr. Cafwyd bore coffi llwyddiannus yn Neuadd y Dref lle bûm yn gwerthu nwyddau'r Mudiad a chael cyfle i rannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o'r Mudiad.

Ym mis Tachwedd cynhaliwyd Cwrs Crefft undydd yn Llansannan Rhanbarth Colwyn yn gwneud addurniadau Nadolig dan ofal Rhiannon Williams a bu'n ddiwrnod llwyddiannus unwaith eto.

Bu'r Cwis Hwyl yn llwyddiant eto eleni lle y daeth nifer dda iawn o'r aelodau ynghyd yn y ddau ranbarth i gymryd rhan, a mwynhau noson o gymdeithasu. Eleni ymunais a Rhanbarth Colwyn yng ngwesty Tŷ'r Oriel Llanelwy. Braf iawn oedd cael llongyfarch cangen Prestatyn a ddaeth yn gydradd ail a changen Abergele a ddaeth yn gydradd drydydd trwy Gymru. Cyfarfu Rhanbarth Glyn Maelor yn Neuadd Dôl Y Wern, Glyn Ceiriog.

Mynychais Y Ffair Aeaf yn Llanelwedd a bûm yn cynorthwyo ar safle'r Mudiad.

Pleser unwaith eto fu cael trefnu gwasanaeth Llith a Charol ar ddechrau Rhagfyr yn y ddau Ranbarth y naill yng Nghapel Jerwsalem Cerrigydrudion ar llall yng Nghapel Y Groes Wrecsam. Cafwyd dwy noson gofiadwy gyda naws arbennig iddynt, a chafwyd cyfle ar y diwedd i gael sgwrs a chymdeithasu dros baned a mins peis. Hoffwn ddatgan fy niolch diffuant i bawb am eu cyfraniadau i'r noson a'u rhoddion hael i'r ddwy Elusen - sef Gweinyddesau McMillan a Hosbis Tŷ'r Eos Wrecsam, a chafwyd gair gan gynrychiolwyr o'r elusennau hynny.

Mynychais Gwrs Crefft y Gogledd yng Ngholeg Llysfasi ddechrau'r mis Ionawr lle y daeth nifer dda o aelodau ynghyd, a chafwyd diwrnod pleserus ac addysgiadol yn y gwahanol ddosbarthiadau.

Bu Cinio'r Llywydd yn y Gogledd eleni ym mis Ebrill yng Nghanolfan Yr Urdd yng Nglan-llyn, a bûm yn cynorthwyo ar y diwrnod gydag amrywiol ddyletswyddau. Cafwyd cinio blasus ac adloniant safonol.

Mynychais y Cyfarfod Blynyddol ar Ŵyl Haf ym Machynlleth ym mis Mai, a braf oedd cael bod yn rhan o'r bwrlwm cystadlu a'r gweithgareddau unwaith eto, gydol y dydd . Rhaid llongyfarch amryw o aelodau'r ddau Ranbarth a fu'n llwyddiannus yn yr amrywiol gystadlaethau. Bum hefyd yn cynorthwyo yn y babell yn Eisteddfod yr Urdd Sir Conwy ym Mae Penrhyn.

Mis Mai ymunais a rhanbarth Glyn Maelor ar daith bws am benwythnos i Sempringham i ymweld â bedd Y Dywysoges Gwenllian. Hwn oedd yr ŵyl ranbarth eleni a chawson benwythnos pleserus ac addysgiadol. Trefnwyd noson gartrefol fel Gŵyl ranbarth yng Ngholwyn ar ffurf Bwyd, Pennill a Chân - noson amrywiol o goginio, barddoniaeth a chanu gyda doniau lleol.

Gan mai Clwyd oedd yn noddi Sioe Llanelwedd eleni bu cryn brysurdeb am fisoedd cyn y Sioe gyda'r trefniadau a'r paratoadau. Bu'r ddau ranbarth yn gweithio ar y cyd eto eleni yn llwyddiannus iawn yn cynllunio a pharatoi'r arddangosfa o waith crefft ar ffurf Paneli, oedd yn cyfleu golygfa o dirlun Dyffryn Clwyd i'w harddangos yn safle'r Mudiad yn Neuadd Morgannwg. Diolch i'r holl aelodau a gyfrannodd at y gwaith, ond diolch arbennig i'r bedair arbenigwraig sef Llinos Roberts ac Ann Jones Colwyn, a Mary Mars Lloyd a Nia Rowlands Glyn Maelor am gyfarwyddo, a'r gwaith caled a diflino o roi'r cyfan at ei gilydd. Hefyd diolch diffuant i bawb a ddaeth i weini yn eu tro yn y bar te a choffi ac am y rhoddion o gannoedd o gacennau cri. Diolch arbennig i Swyddogion y ddau ranbarth am eu cymorth a'u cydweithrediad gyda'r paratoadau i sicrhau llwyddiant y Sioe. Mae'n siŵr mai uchafbwynt y Sioe i Glyn Maelor oedd ennill dau gwpan sef cwpan Radi Thomas am y marciau uchaf yn y cystadlaethau Crefft am y tro cyntaf erioed, a chwpan yn adran gosod blodau i Gaynor Jones o gangen Llandegla a Bryneglwys. Llongyfarchiadau calonnog iddynt i gyd ar eu llwyddiant ysgubol, a hefyd aelodau a fu'n llwyddiannus mewn cystadlaethau yn yr adran Grefft agored. Sicrhaodd Llinos Roberts y tlws am yr eitem orau yn yr adran Grefftau - tipyn o gamp! Llongyfarchiadau iddi ar ei llwyddiant. Cafwyd wythnos fendigedig a chofiadwy er gwaethaf y prysurdeb gydol yr wythnos, mewn tywydd crasboeth!

Cafwyd gŵyl Celf a Chrefft hefyd yng Ngholwyn ynghyd â chystadlaethau Sioe Llanelwedd. Bûm yn ymweld â changhennau Bryneglwys, Derwen, Gwyddelwern a chael ymuno â changen Y Rhyl i ddathlu pen-blwydd y gangen yn ddeugain oed. Bum hefyd yn cynorthwyo Y Rhyl i wneud cais am grantiau, ac rwy'n falch iddynt fod yn llwyddiannus. Pleser oedd cael cyfle i gynorthwyo ambell gangen gydag awgrymiadau a threfnu rhaglen. Diolch iddynt oll am eu croeso bob amser.

Bûm yn cydweithio a Phartner Iaith Sir Ddinbych eto eleni yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Yr ymgyrch flynyddol i godi ymwybyddiaeth o'r Iaith a'r Mudiadau Cymraeg.

'Rwyf wedi mynychu pwyllgorau Staff/Swyddogion Aberystwyth, mynychu Is bwyllgor Iaith a Gofal a'r pwyllgor Rhyngranbarthol, mynychu pwyllgor pabell Merched y Wawr Sioe Dinbych a Fflint, cyfarfodydd Partneriaeth Menter Iaith, mynychu cyfarfod Bwrdd Yr Iaith yn Rhuthun, Mynychu pwyllgorau'r ddau ranbarth - ymweld â rhai dosbarthiadau dysgwyr, pwyllgor blynyddol Ffermwyr Ifanc, pwyllgor yr Urdd, Pwyllgorau Gŵyl Gerdd Dant Dyffryn Clwyd 2008, Pwyllgorau Sioe Frenhinol Llanelwedd 2008. Cyfarfod gyda Swyddogion Celf a Chrefft y ddau Ranbarth i ddechrau paratoi arddangosfa Merched y Wawr yn Sioe Llanelwedd eleni. Cyfarfod gyda Swyddogion y ddau Ranbarth i drafod cyfrifoldebau eraill wythnos y Sioe. Mynychu cwrs Cymorth Cyntaf.

Trefnwyd helfa drysor yng Ngholwyn gan y pwyllgor Chwaraeon yng Ngorffennaf. Wedi mynychu pwyllgorau Gŵyl Gerdd Dant Dyffryn Clwyd 2008, pwyllgorau Ffermwyr Ifanc a'r

Urdd, cyfarfodydd Sioe Llanelwedd, Cyfarfod Monitro Bwrdd Yr Iaith yn Rhuthun, a chyfarfodydd Mentrau Iaith Dinbych a Maelor.

Ddiwedd Awst bûm yn cynorthwyo a gwerthu nwyddau ym mhabell Merched y Wawr yn Sioe Dinbych a Fflint. Cafwyd diwrnod llwyddiannus eto er gwaethaf y tywydd.

SWYDDOG DATBLYGU CAERFYRDDIN
Yvonne Davies-Grodzicka

Ym mis Medi bûm yn cynorthwyo yn y Penwythnos Preswyl ym Mangor, a chafwyd penwythnos arbennig. Ym mis Hydref cefais y fraint o ymuno gydag aelodau clybiau gwawr yn noson ddathlu a lansio gwefan clybiau gwawr y De yng nghlwb nos Waterside Caerfyrddin. Trefnwyd y noson yn arbennig gan Ruth, roedd y lle yn orlawn, yr aelodau yn mwynhau'r lluniaeth a'r dawnsio, ac yna i'n diddori cafwyd Caryl Parry Jones a'r band. Cafwyd noson lwyddiannus dros ben.

Bu mis Tachwedd yn brysur, oherwydd prysurdeb y dathlu yn ystod y flwyddyn a'r eisteddfod yr Urdd Caerfyrddin, bu rhaid gohirio dathlu'r rhanbarth, hyd y seithfed o Dachwedd pan gawsom ginio yng ngwesty'r Hanner Ffordd Nantgaredig. Cawsom noson arbennig yng nghwmni ein llywydd cenedlaethol Mary Price a llywydd anrhydeddus y Rhanbarth Enid Jones. Haulwen Booth llywydd rhanbarth oedd wrth y llyw a chafwyd araith bwrpasol iawn ganddi. Roedd pawb wedi mwynhau, diolch i'r swyddogion rhanbarth am drefnu, cawsom noson i'w gofio. Bûm yn cynorthwyo rhanbarth ar noson cwis hwyl, yn neuadd Pontargothi, cawsom noson hwyliog, gydag un ar hugain o dimau yn cystadlu.

Mynychais ysgol undydd y rhanbarth yn ysgol Nantgaredig ac roedd yn lwyddiant eto eleni, gyda diolch i'r pwyllgor gŵyl a hamdden am drefnu'r holl ddigwyddiad yn flynyddol.

Bum yn y pwyllgorau rhanbarth lle croesawodd Haulwen ein siaradwr gwadd sef Cefin Campbell atom i siarad am Bapur Y Byd, ond yn anffodus nid yw'n bodoli mwyach.
Ym mis Chwefror bum ym mhwyllgor rhanbarth yn Nantgaredig, pwyllgor gŵyl a hamdden a phwyllgor Rhyngranbarthol. Ymunais yn noson chwaraeon yn y Railway Nantgaredig i gynorthwyo gyda chystadleuaeth dominos a'r dartiau, bum yn y pwyllgor staff a chyfarfod Fforwm Iaith Caerfyrddin.

Mynychais gwrs glendid a hylendid bwyd yn Aberystwyth, a chynorthwyo yng nghinio llywydd y de yn neuadd yr Halliwell Caerfyrddin, a hefyd yn helpu yn noson dau ddwrn a chwist yn yr Hydd Gwyn Llandeilo. Bûm yn cynorthwyo yn yr Ŵyl Haf ym Machynlleth, a braf oedd gweld aelod o gangen Abergorlech yn llwyddiannus yng nghystadleuaeth 'Addurno Bag Glas'. Bum hefyd yn trefnu gyda'r noson goffi yn Nantgaredig. Hyfryd oedd gweld aelodau o'r clybiau gwawr wedi cystadlu ac yn mynd ymlaen i'r sioe yn Llanelwedd.

Mynychais gyfarfod preswyl ym Machynlleth a chyfarfod trefnu dathlu deugain y rhanbarth yng ngwesty'r Llwyn Iorwg, penderfynwyd cynnal cyngerdd ym mis Mai.

SWYDDOG DATBLYGU CEREDIGION A PHENFRO
Elizabeth Evans

Gyda blwyddyn dathlu'r rhuddem yn araf ddirwyn i ben cychwynnwyd y gweithgareddau ym mis Medi gydag Is-bwyllgor Celf a Chrefft Ceredigion a Fforwm Iaith Penfro yn Hwlffordd. Yna Wythnos Cymraeg yn Gyntaf yn Aberystwyth a chynorthwyo i ddosbarthu nwyddau i

fusnesau'r dre ac i ddarganfod faint o weithwyr oedd yn medru'r Gymraeg. Syndod deall bod nifer yn medru ond yn ddihyder i'w defnyddio wrth eu gwaith bob dydd.
Wedyn troi am Fangor i'r Penwythnos Preswyl a chyfle i gynorthwyo a mwynhau tridiau o weithgarwch ar lan y Fenai ac ar draws y dŵr yn Sir Fôn. Trwy garedigrwydd Rhanbarth Gorllewin Morgannwg trefnais fod aelodau Ceredigion a Phenfro yn teithio ar eu bws hwy i Fangor - trefniant buddiol a hwylus. Mynychu cynhadledd fidio "Mudiadau Dathlu'r Gymraeg" yn Aberystwyth, Fforwm 50+ a phwyllgor Rhanbarth Ceredigion. Methais ymuno â thrip blynyddol Celf a Chrefft Ceredigion ddiwedd Medi gan fy mod yn mynychu gwasanaeth coffa i'r diweddar Eirlys Peris Davies yng Nghapel Penygroes, Penfro. Llwyddais beth bynnag i ymuno â nhw am swper fin nos yng Ngwesty Trewern, Nanhyfer a chael hanes y diwrnod ar ei hyd.

Eleni cychwynnodd Mim a minnau gymryd cyfrifoldeb am drefnu'r chwaraeon cenedlaethol gan fynychu Is-bwyllgor Gŵyl a Hamdden. Yn ystod mis Hydref hefyd mynychais noson i Glybiau Gwawr rhanbarthau'r de yng Nghaerfyrddin, ymuno ag ambell gangen yn eu cyfarfodydd misol a chyfarfod ym Machynlleth efo'r Cyfarwyddwr, y Llywydd Cenedlaethol a Mim i wneud trefniadau ar gyfer yr Ŵyl Haf ym mis Mai. Bum yn Fforwm Iaith Ceredigion yn Felinfach ac ym mhwyllgor Rhyngranbarthol y mudiad yn Aberystwyth.

Bu mis Tachwedd yn hynod o brysur. Treulio diwrnod yn yr Ŵyl Cerdd Dant ym Mhontrhydfendigaid a chael cymorth aelodau o Geredigion ar y stondin yn ystod y dydd, mynychu Cyfarfod Monitro gan Fwrdd yr Iaith ym Machynlleth a chyfarfod Cynllunio Cymraeg i Oedolion yng Ngheredigion. Cynhaliwyd noson i ddathlu'r deugain yng Ngheredigion ganol Tachwedd pan ddaeth dros 300 o aelodau ynghyd i Glwb Golff Penrhos i'r noson Nadoligaidd. Is-bwyllgor Celf a Chrefft y rhanbarth fu'n gyfrifol am drefnu'r noson a bu'n llwyddiant ysgubol. Diolch diffuant i bawb am eu gwaith cyn ac yn ystod y noson ac mae galw bellach i gynnal digwyddiadau rhanbarthol tebyg yn y dyfodol. Ar gyfer y noson hon bûm yn paratoi arddangosfa o luniau cynrychiolwyr y rhanbarth yn Sioe Llanelwedd ers cychwyn y gystadleuaeth yn 1979. Gyda chymorth aelodau unigol a changhennau llwyddais i ddod o hyd i bob llun gan i bawb fod yn chwilota ymhob twll a chornel i ddod o hyd i'r lluniau. Bellach mae'r casgliad yn gyflawn a'r gobaith yw cario 'mlaen tra pery'r gystadleuaeth gan greu deunydd i archif y dyfodol. Ymunais â rhanbarth Penfro ar gyfer y Cwis Hwyl a chafwyd noson hwyliog a chwmnïaeth ddifyr yng Nghaffi Beca, Efail Wen. Treulio diwrnod hefyd yn y Ffair Aeaf.

Dechrau Rhagfyr mynychu pwyllgorau staff a Llywio yn Aberystwyth a chyfarfod o bwyllgor Llywio Papurau Bro Ceredigion a Phenfro yng Ngwesty Llanina. Yn ystod y tymor hwn ymunais â nifer o ganghennau yn eu cyfarfodydd a threulio nosweithiau diddorol a difyr.

Cychwynnodd y flwyddyn 2008 efo cryn brysurdeb drwy ymweld â chwe changen, ymuno efo Ruth mewn cyfarfod i sefydlu Clwb Gwawr y Wiber, Castell Newydd Emlyn, dwy noson o chwaraeon yng Ngheredigion yn y Llew Du yn Llanbed (lleoliad newydd) a chydweithio efo'r Urdd i drefnu rota o stiwardiaid yn Eisteddfodau'r Rhanbarth.

Daeth misoedd Mawrth ac Ebrill a'u hamryw ddigwyddiadau - noson chwaraeon Penfro yng Nghrymych, Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Fforwm Gwledig Cymru, Fforymau Iaith y ddau ranbarth a chinio'r Llywydd yn y de yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin lle bûm yn cynorthwyo. Diddorol oedd treulio diwrnod yno lle bum yn fyfyriwr rai blynyddoedd yn ôl bellach a rhyfeddu at yr holl newidiadau. Cynhaliwyd Gŵyl Fai lwyddiannus yn Aberaeron ddechrau Mai a chreuwyd hanes gan i fam a merch, y naill yn aelod yng nghangen Beulah a'r llall yng Nghlwb Gwawr y Wiber ennill ar ddwy gystadleuaeth yr un i gynrychioli Ceredigion yn Sioe Llanelwedd. Llongyfarchiadau iddynt ar gyrraedd y drydydd safle yn y Sioe.

Trefnwyd bod tîm o Benfro yn cystadlu yn y Sioe hefyd a braf oedd gweld wynebau newydd yn cystadlu am y tro cyntaf a chreu eitemau mor gywrain. Mynych sawl sesiwn o hyfforddiant yng nghwrs y tymor gan gynnwys Glendid Bwyd, Cymorth Cyntaf, Trafod â llaw a Phwynt Pŵer.

Gan fod Mim a minnau yn gyfrifol am y chwaraeon yn yr Ŵyl Haf roedd tipyn o waith trefnu gan fod rhywfaint o newidiadau eleni - rhai cystadlaethau yn Ysgol Bro Ddyfi a'r golf ym Machynlleth gan nad oedd cwrs y Borth ar gael. Er gwaethaf y glaw mân mwynhaodd pawb y golff a daeth yr holl gystadlaethau i ben yn syndod o hwylus a buan. Braidd yn rhy fuan efallai gan i bawb dyrru i'r neuadd orlawn i weld y cystadlaethau adloniant. Cafwyd cystadlu brwd a bu'r newidiadau a wnaed yn llwyddiant. Gwobrwywyd nifer o aelodau o'r ddau ranbarth yn y maes chwaraeon, cystadlaethau'r dysgwyr, cystadleuaeth crefft a chynllunio cerdyn Nadolig ac mae galw mawr am "Hogiau'r Wyddfa Ceredigion "wedi 'r perfformiad gwefreiddiol gafwyd ar lwyfan Gŵyl '08. Diolch i holl aelodau'r ddau ranbarth am eu parodrwydd bob amser i gymryd rhan ac i gefnogi 'r gweithgareddau .

Cyflwynwyd tarian goffa'r diweddar Mair Kitchener Davies am gynnydd aelodaeth yng Ngheredigion i Gangen Bro Cranogwen a daethant yn ail drwy ranbarthau'r de yn ogystal. Cychwynnodd dau Glwb Gwawr yng Ngheredigion hefyd sef Clwb Gwawr y Cnapan yn ardal Ffostrasol a Chlwb Gwawr y Wiber yng Nghastell Newydd Emlyn.

Gan fod y mudiad yn cydweithio'n agos efo nifer o bartneriaid mynychais lansiad "7 dros yr iaith" sef prosiect peilot sy'n cymryd lle yng Ngheredigion a Sir Gâr i hyrwyddo'r Gymraeg. Rwyf hefyd yn aelod o bwyllgor Cyhoeddusrwydd Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010 a Bwrdd Llywodraethol Coleg Ceredigion. Rhoddaf adroddiad bob mis ar Radio Ceredigion ac anfon adroddiadau'n gyson i'r wasg.

Ar ddiwedd y flwyddyn ym mis Awst mynychais seremoni urddo Esyllt Jones yn Llywydd Cenedlaethol am 2008 - 2010 a'r cyflwyniad ar lwyfan y brifwyl a chynorthwyo yn y te croeso oedd yn dilyn. Cyn cael seibiant ganol Awst rhaid diolch i bawb yn ddiwahân am y cyfeillgarwch, y cydweithio a'r croeso cynnes gaf o gyrion Cors Fochno yng ngogledd Ceredigion i barthau deheuol y Preselau ym Mhenfro.

SWYDDOG DATBLYGU Y DE-DDWYRAIN A DE POWYS
Eirlys Davies

Ar Fai 1af 2008 cychwynnais weithio i'r Mudiad. Cefais fy medydd tân trwy fynychu Pwyllgor Staff ar y diwrnod hwnnw! Rhaid dweud i mi gael croeso cynnes gan bawb a help amhrisiadwy gan staff y Swyddfa. Cefais gynghorion a chymorth arbennig gan Malvina Ley oedd wedi gwasanaethu Rhanbarth y De-Ddwyrain yn ddiwyd am 7 mlynedd.
Ymunais â bwrlwm y paratoi ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2008. Mynychais ymarferion y Cyflwyniad 'O'R BANNAU I'R BAE' ac Is-bwyllgor trefnu'r Babell. Gweithiodd Swyddogion y Rhanbarth yn eithriadol o galed i sicrhau llwyddiant y Cyflwyniad a'r gweithgareddau yn y Babell. Bu pob un o'r 10 cangen yn eu tro yn cynorthwyo yn y Babell a chafwyd wythnos brysur a llwyddiannus iawn. Rhaid cydnabod help amhrisiadwy'r Swyddogion Cenedlaethol i sicrhau rhediad didramgwydd gweithgareddau'r babell. Siomedig oedd lleoliad ein stondin ym Maes 'D' ond llwyddwyd i gasglu nifer o enwau merched sydd â diddordeb mewn ymuno â'r Mudiad. Gwnaethom gysylltiadau da ar gyfer y dyfodol.

Llwyddwyd i gael 4 aelod o'r Rhanbarth i gystadlu am Gwpan Radi Thomas yn Sioe Llanelwedd. Ni chafwyd llwyddiant mawr y tro hwn, ond roedd yr ymdrech yn un gwerth ei gwneud.
Ymunais â Changen Casnewydd yn eu Cyngerdd Blynyddol. Yr artistiaid eleni oedd Côr Cwm Ni. Cafwyd gwledd o ganu, cwmni hwyliog a danteithion blasus cyn ffarwelio.
Euthum ati i edrych i mewn i'r posibilrwydd o gael canghennau newydd neu ail agor canghennau yn Y Fenni; Aberhonddu; Pontypridd; Caerdydd a Chaerffili. Gyda help y Swyddogion Rhanbarth a Ruth Morgan, Swyddog Clybiau Gwawr y De, llwyddwyd i ethol Swyddogion i Gangen a Chlwb Gwawr yn Y Fenni. Byddant yn dechrau ar eu gweithgareddau yn yr Hydref.
Ym mis Gorffennaf gyda chymorth y Cyfarwyddwr Cenedlaethol llwyddwyd i gael cyfarfod ac ethol Ysgrifenyddes i ail agor Cangen yn Aberhonddu, De Powys. Mae angen tipyn o waith eto cyn y bydd y Gangen yn rhedeg yn esmwyth.
Rwy'n dal i weithio gyda'r cysylltiadau sydd gennyf ym Mhontypridd, Caerffili a Chaerdydd.

Gwneuthum gysylltiadau pwysig trwy fynychu Fforwm Iaith Caerdydd. Gyda'r Is-lywydd Cenedlaethol bûm yn cynrychioli'r Mudiad yng Nghanolfan yr Urdd, Bae Caerdydd mewn cynhadledd a drefnwyd gan Fudiadau sy'n Dathlu'r Gymraeg.

Cefais ddyddiau llwyddiannus yn hyrwyddo gweithgareddau'r Mudiad yn:-
Ffair Dysgwyr, Prifysgol Morgannwg a Taf Ŵyl, Menter Iaith Caerdydd

Bum yn rhan o'r bwrlwm yn y Cyfarfod Blynyddol ym Machynlleth. Manteisiais yn fawr o fod ym Mhwyllgor Staff a Swyddogion y Mudiad ym Machynlleth.

Mae'r Gliniadur newydd wedi achosi tipyn o ben tost ar brydiau, ond mae pethe'n dod yn haws wrth ymgynefino. Mae'n gwneud y gwaith o gysylltu â phawb dipyn yn haws. Carwn ddiolch i bawb, yn Staff, Swyddogion ac aelodau am eu cefnogaeth i mi yn ystod fy misoedd cyntaf yn y swydd.

SWYDDOG DATBLYGU GOGLEDD ORLLEWIN CYMRU A MALDWYN-POWYS
Mim Roberts

Dechreuais y tymor drwy gynnal cyrsiau 'Addurniadau Nadolig'. Cyrsiau oedd y rhain i gyd fynd a chystadleuaeth Merched y Wawr yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd. Bu i mi gynnal cwrs yng Nghonwy, Arfon, Dwyfor Meirionnydd a Maldwyn-Powys a braf oedd gweld cymaint wedi cystadlu yn y Ffair Aeaf. Yn ychwanegol i'r rhain bûm yn ymweld ag ambell i gangen yn dysgu'r aelodau i wneud addurniadau Nadolig. Bûm yn ymweld â dwy gangen ac un clwb i roi gwybodaeth am grantiau sydd ar gael i'r canghennau. Trefnwyd diwrnod yn Y Bala ar gyfer 'Y Dysgwyr' a chefais y cyfle i baratoi gwybodaeth am y mudiad i'r dysgwyr a hefyd rhoi gwybodaeth iddynt am y canghennau lleol. Cefais wahoddiad gan ranbarth Glyn Maelor i gynnal cwrs 'Llyfr Lloffion' yn Awelon, Rhuthun. Ymunais â changen Betws y Coed a'r Fro i'w noson agoriadol. Cefais i fraint o ymuno â rhanbarth Dwyfor eto eleni i giniawa ym Mynydd Ednyfed i ddathlu 'Dydd Owain Glyndŵr' a chawsom gwmni Mary Price, Llywydd Cenedlaethol. Eleni roedd y Penwythnos Preswyl ym Mangor a chafwyd gwledd o benwythnos yn y ddinas a phawb wedi mwynhau yn nôl pob sôn.

Mynychais gyfarfod a drefnwyd gan Fwrdd yr Iaith lle cafodd partneriaid y bwrdd y cyfle i drafod materion yn ymwneud â'r ardal, hefyd mynychais gyfarfod Partneriaid y Gogledd yng Nghaernarfon.

Ym mhwyllgor rhanbarth Aberconwy ym mis Medi aed ati i drefnu is-bwyllgor ar gyfer Eisteddfod Yr Urdd Conwy a chafwyd ymateb da iawn o bob cangen, pawb yn barod eu cymwynas a syniadau gwych ar gyfer yr arddangosfa yn y babell. Bu'r aelodau yn gweithio'n ddygn yn ystod y misoedd yn dilyn tuag at yr eisteddfod a braf oedd gweld ffrwyth eu gwaith ym mhabell y mudiad ym mis Mai. Penderfynwyd ar y thema 'Pererindod' gyda Tŷ Mawr Wybrnant yn rhan bwysig iawn yn yr arddangosfa.

Wedi llwyddiant y bowlio deg yn Arfon, Dwyfor a Meirionnydd, roeddwn yn falch iawn o drefnu twrnament ar gyfer rhanbarth Aberconwy a oedd yn awyddus iawn i ymuno â'r hwyl. Trefnwyd y noson yn Llandudno ac ymunodd chwe changen y noson honno, ac wedi llwyddiant y noson aed ymlaen i Tal y Cafn i ddathlu drwy swpera. Trefnwyd noson gan Glwb Gwawr Dyffryn Tanat yn Llangynog yng nghwmni Bethan Gwanas a braf oedd gweld yr ystafell yn orlawn gan fod y clwb wedi rhoi gwahoddiad i aelodau o Ferched y Wawr y rhanbarth. Bu i Tegwen, Mary a finnau fod yn ffodus iawn o dderbyn gwahoddiad i ymuno â rhanbarth Môn i ddathlu'r deugain yng ngwesty Bae Trearddur ble cawsom groeso cynnes iawn ymysg yr aelodau. Ymunais â rhanbarth Arfon yn y Cwis Hwyl eleni yng ngwesty'r 'Stables' Llanwnda gyda nifer o ganghennau yn cymryd rhan, a phawb wedi mwynhau'r noson yn fawr. Bûm yn cynorthwyo yn y Ffair Aeaf. Cefais ymuno â changen Llanfyllin i ddathlu'r deugain yn Y Cain gyda chwmnïaeth Mary Price a Caryl Parry Jones yn ein diddanu wedi'r wledd. Ymunais â changen Amlwch - y gangen wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda grant y loteri a chafwyd noson o gyflwyno'r siec yng nghwmni Ieuan Wyn Jones a'i wraig.

Wedi i Lowri ymgymryd â'i swydd fel Swyddog Hyrwyddo Clybiau Gwawr aeth y ddwy ohonom ati i drefnu noson yng Nghlwb Golff y Bala i godi arian i Brian (Yogi) a chyd weithio â Ffermwyr Ifanc Meirionnydd a chlwb Gwawr Y Gwyniaid i gynnal y digwyddiad yma. Bu'r noson yn llwyddiant ysgubol a phawb wedi mwynhau'r noson yn fawr. Unwaith eto eleni trefnwyd twrnament bowlio deg rhanbarth Arfon a Dwyfor ac unwaith eto pawb i'w weld yn mwynhau'r nosweithiau yn fawr - cyfle i gael noson llawn hwyl a chwrdd â gwahanol ganghennau.

Bûm yn cynorthwyo Tegwen ac Anwen yn y Cwrs Crefft y Gogledd yn Llysfasi. Trefnwyd 4 cwrs a oedd yn cyd- fynd â chystadleuaeth y Sioe Fawr sef, gosod blodau, cyfrifiaduron, gemwaith a chreu eitemau allan o hen jîns. Bu'n ddiwrnod llwyddiannus. Yn flynyddol mae rhanbarth Maldwyn-Powys yn trefnu noson ym mis Chwefror ar gyfer y dysgwyr a chafwyd noson yn 'Y Dyffryn' yng nghwmni'r dysgwyr i chwarae 'Gyrfa Chwilod' a braf oedd gweld nifer o ddysgwyr wedi ymuno â'r aelodau.

Roedd cangen Y Bala yn dathlu'r deugain yn wahanol i ambell gangen – 'Te Prynhawn' yng nghanolfan Bro Tegid. Roedd y lluniaeth wedi ei drefnu gan yr aelodau a braf oedd gweld ambell i gyn aelod yn ymuno â hwy. Ymunais â rhanbarth Dwyfor i gynnal eu noson chwaraeon yn neuadd Mynytho a chafwyd noson hwyliog iawn.

Bu i Lowri a minnau fynd i Gaergybi i sgwrsio â merched ifanc yr ardal gyda'r gobaith o sefydlu clwb gwawr yno. Bu i'r noson fod yn llwyddiant a sefydlwyd Clwb Gwawr Lawd. Mynychais gwrs a oedd wedi ei drefnu yn Aberystwyth yn ymwneud a 'Funky Foam' a chawsom ddiwrnod gwych o greu gemwaith yn defnyddio'r sbwng dan arweiniad Llinos, Mary ac Ann. Ymunais â rhanbarth Aberconwy yn eu noson chwaraeon yn Eglwysbach. Hefyd ymunais â rhanbarth Arfon yn neuadd Dinas - hwythau yn cynnal eu cystadlaethau chwaraeon y rhanbarth.

Roedd Cinio'r Llywydd eleni yng Nghanolfan yr Urdd yng Nglan-llyn ger Llanuwchllyn a chroesawyd dros 250 o aelodau i'r ardal. Roeddem yn ffodus iawn o'r tywydd ac wedi'r cinio

cawsom anerchiad gan Huw Antur ac yna adloniant gan Edryd Williams ac Alex Peate. Bu i Lowri a minnau dderbyn gwahoddiad i agoriad swyddogol Canolfan Cywain Y Bala. Trefnwyd noson yn Rhydymain gan ranbarth Meirionnydd i 'Ocsiwn Addewidion' er mwyn codi arian tuag at Eisteddfod Meirion a'r cylch. Mynychais noson roedd rhanbarth Arfon wedi ei drefnu gan yr is-bwyllgor celf a chrefft a chawsom noson ddifyr yng nghwmni Rhiannon Parry yn sôn am ei gwaith brodio. Cynhaliwyd Gŵyl y Pum Rhanbarth unwaith eto eleni yn Ysgol Ffriars, Bangor a chafwyd diwrnod wrth fodd pawb. Cynhaliwyd yr Ŵyl Haf ym Machynlleth unwaith eto yn Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi a'r Ganolfan Hamdden ar gyfer y chwaraeon.

Trefnwyd prynhawn yn neuadd Lôn y Felin Llangefni ar gyfer trafod grantiau i ranbarth Môn a braf oedd gweld cymaint wedi dod draw i gael cymorth gyda'r grantiau, a hefyd trefnwyd noson yn Llanrwst ar gyfer rhanbarth Aberconwy. Cafwyd Sioe lwyddiannus ym Mona, Ynys Môn er gwaetha'r tywydd a'r babell yn fwrlwm yn paratoi paneidiau ar gyfer y cyhoedd. Yr un peth ym Meirionnydd yn y Sioe Sir a chynhaliwyd yn Y Bala eleni.

Mynychais gyfarfodydd Fforwm Maldwyn, Conwy, Iaith Arfon, Meirionnydd, Partneriaid y Gogledd a Phwyllgor Sioe Sir. Mynychais bwyllgorau rhanbarth Aberconwy, Arfon, Dwyfor, Meirionnydd, Maldwyn-Powys a Môn a hefyd pwyllgor staff, pwyllgor llywio, rhyngranbarthol a mynychu cwrs Hylendid a Glendid Bwyd a Phwynt Pŵer yn Aberystwyth.

Ymwelais â changhennau Llanfyllin, Carmel, Sarnau, Eglwysbach, Llanddoged, Llan Ffestiniog, Mochdre, Bermo, Deudraeth, Caergybi, Corris, Parc, Penrhosgarnedd, Penygroes, Cricieth, Llwyndyrus a Deiniolen trwy gydol y flwyddyn yn arddangos gwaith crefft, gwneud addurniadau Nadolig a llyfrau lloffion.

SWYDDOG HYRWYDDO CLYBIAU GWAWR Y DE
Ruth Morgan

Drwy gymorth grant oddi wrth Gyngor Sir Gâr i farchnata'r clybiau, roeddwn wedi trefnu Noson Rhialtwch Clybiau Gwawr y de ar Hydref 12fed 2007 yng Nghlwb Nos y Waterside yng Nghaerfyrddin. Roedd 200 o aelodau wedi mwynhau noson hwylus drosben gan gynnwys bwffe gan Cegin Fach y Wlad, rhaeadr siocled ac yna Caryl Parry Jones a'r Cabaret. Lansiwyd y wefan newydd ar y noson www.clybiaugwawr.com <http://www.clybiaugwawr.com>. Cefais fy nghyfweld ar 'Wedi 7' ac roedd Rhaglen Geraint Lloyd wedi darlledu'n fyw yno. Roedd aelodau o'r clybiau a oedd yn rhedeg busnesau yn arddangos a gwerthu eu cynnyrch.

Braf yw cofnodi fod y cyfnod hwn wedi gweld y Clybiau Gwawr yn ehangu i bob rhanbarth yn ne Cymru. I ddechrau tymor yr Hydref 2007, daeth bron i 30 o ferched at ei gilydd i ddechrau Clwb Gwawr Ogwr. Yn nesaf roedd cyfarfod wedi'i drefnu yn Nhafarn y Gwachel, Pontardawe a daeth criw mawr at ei gilydd yma eto i ffurfio Clwb Gwawr Cwm Tawe. Yr ardal nesaf i ddechrau clwb newydd oedd Ffostrasol lle daeth criw i Dafarn Ffostrasol i gwrdd â Tegwen a finnau a dwy aelod o'r gangen leol. Dechreuwyd Clwb Gwawr y Cnapan. Rhyw hanner dwsin a ddaeth i'r noson a drefnwyd yn y Thomas Arms, Llanelli ond fe benderfynwyd gwrdd eto, gan obeithio y byddai mwy yn ymateb. Fel rhan o Wythnos Cymraeg yn Gyntaf roeddwn wedi siarad mewn bore coffi ar Raglen Grav (Radio Cymru) yn sôn am Glybiau Gwawr ac am y gobaith i ddechrau clwb yn ardal Llanelli. Ar drothwy Nadolig 2007, roeddwn wedi mynychu Taith Nadolig S4C yn Ystradgynlais ac Abertyleri a chael cyfle i hyrwyddo'r clybiau ymysg mamau ifainc yno.

Yn y Flwyddyn Newydd roeddwn wedi dechrau clwb yng Nghastell Newydd Emlyn. Daeth tyrfa frwdfrydig i dafarn y Pelican i ddechrau Clwb Gwawr Y Wiber. Draw i'r de-ddwyrain yn nesaf lle cynhaliwyd cyfarfod yng Nghanolfan Addysg Gymunedol Gartholwg, yr Eglwys Newydd. Fe ddaeth criw bach ond brwdfrydig at ei gilydd a phenderfynu ffurfio Clwb Gwawr Gartholwg. Yn ogystal, roedd Llywydd ac Is-Lywydd y Rhanbarth, sydd hefyd yn aelodau o'r gangen leol, yn bresennol ac yn medru rhoi syniadau ar gyfer rhaglen i'r clwb. Roedd Clwb Gwawr yr Elyrch (Abertawe) wedi dechrau yn y gwanwyn ac roedd clybiau newydd wedi dechrau yn Y Fenni, Sir Benfro, Tregaron a Chaerdydd yn Hydref 2008.

Yn ogystal â dechrau clybiau newydd, bues mewn cyswllt cyson gyda'r clybiau a oedd eisoes yn bodoli, un ai drwy ymweld neu ffonio'r cysylltwyr. Roeddwn wedi annog y clybiau i anfon eu rhaglenni ar e-bost fel ein bod yn medru eu rhoi ar wefan Clybiau Gwawr a hefyd eu hannog i gystadlu yng nghystadlaethau Merched y Wawr. Roedd sawl aelod wedi cystadlu a chael cryn lwyddiant. Gan fy mod ar secondiad am dri mis ar ddechrau'r haf, roeddwn wedi gweithio oriau llai (hanner amser) am y cyfnod hwnnw.

Yn naturiol, y mae angen fwy o gymorth ar rai clybiau na'i gilydd, yn enwedig rhai o'r rheiny sydd newydd ddechrau. Rwyf wedi cysylltu'n gyson a chwrdd gyda'r canlynol i'w helpu : Clwb Gwawr Gartholwg, Llanelli, (lle mae criw bach brwdfrydig wedi dod at ei gilydd erbyn hyn ac maent yn awyddus iawn i ddechrau clwb yn y Flwyddyn Newydd 2009) a'r Elyrch yn Abertawe. Siom oedd clywed fod Clwb Gwawr Cwm Tawe yn cau yn ddisymwth ar ddechrau tymor yr Hydref. Roeddent yn griw mawr pan ddechreuon nhw ar ddiwedd 2007 ond maent wedi penderfynu tynnu allan o'r mudiad. Gobeithio'n fawr y down nhw nôl atom yn fuan. Erbyn hyn felly y mae 24 o glybiau yn ne Cymru, heb rifo Llanelli a Chwm Tawe, gyda'r mwyafrif o hyd yn rhanbarthau Caerfyrddin a Cheredigion, ond, fel y soniwyd eisoes, gyda chlybiau nawr ym mhob rhanbarth o'r de. Mae diddordeb wedi'i ddangos i ddechrau clybiau newydd mewn sawl ardal.
Yn ystod y flwyddyn cyfrannais at bob rhifyn o'r 'Y Wawr'. Roedd hanesion y clybiau a'r erthyglau yn fodd i ddangos delwedd gyfoes y clybiau. Roeddwn wedi annog y clybiau i dynnu lluniau a'u hanfon at y wasg leol ac ata i i'w rhoi yn 'Y Wawr' ac ar y wefan. Bues mewn cysylltiad ag argraffydd Y Wawr er mwyn trefnu bod y wybodaeth am y clybiau sydd yn ymddangos yng nghylchgrawn cyfredol Y Wawr yn ymddangos ar wefan Clybiau Gwawr. Cysylltais gyda sawl cwmni (e.e. gemwaith, colur, blasu gwin) er mwyn cael eu caniatâd i roi eu manylion ar wefan Clybiau Gwawr. Bues mewn cysylltiad cyson â'r cwmni a oedd wedi gwneud 'pop-up banner' ar gyfer y clybiau ac roedd y mudiad wedi defnyddio'r faner ar sawl achlysur. Cydweithiais gyda Bwrdd yr Iaith er mwyn dod o hyd i luniau addas o aelodau'r clybiau ar gyfer eu hadroddiad blynyddol ac i ledaenu'r neges eu bod yn cynnig Sesiwn Harddwch i Glybiau Gwawr ar eu stondin yn yr Eisteddfod. Cydweithiais gyda swyddogion Twf, Mudiad Ysgolion Meithrin a Mentrau Iaith yn Sioe Nadolig a Gwanwyn S4C.

Bûm yn gweithio ar stondin Merched y Wawr yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Caerdydd. Cafwyd cyfle gwych yma i hyrwyddo'r clybiau ac i gasglu enwau ar gyfer darpar aelodau.
Oherwydd ein bod wedi llwyddo i gael grant oddi wrth Gyngor Sir Gâr i farchnata'r clybiau a chynnal y Noson Rhialtwch, roeddwn wedi mynychu Noson Gwobrwyo Gymunedol Sir Gâr yng Ngwesty Parc y Strade, Llanelli gyda'r cyn Lywydd Mary Price. Bûm yn cynorthwyo yng Nghinio'r Llywydd yn y de, lle roeddwn wedi cynrychioli fy nghlwb i gasglu'r darian am y clwb neu gangen a oedd wedi gweld y cynnydd mwyaf mewn aelodaeth. Mynychais Noson Goffi Rhanbarth Caerfyrddin lle'r oedd yn braf gweld tair o aelodau'r clybiau wedi ennill allan o'r 5 cystadleuaeth a mynd ymlaen i gynrychioli'r rhanbarth. Mynychais Bwyllgorau Staff, Pwyllgor Rheoli a'r Pwyllgor Staff a Swyddogion ym Machynlleth. Mynychais gyrsiau a gynhaliwyd i'r staff ar Lendid a Hylendid Bwyd a Chymorth Cyntaf. Roeddwn wedi gweithio yng Ngŵyl Fai Machynlleth ac ym Mhenwythnos Preswyl yn Llambed, lle roeddwn

yn 'ddyn' camera! Roeddwn wedi siarad sawl gwaith ar Radio Cymru a Lleol yn sôn am Glybiau Gwawr ac yn rhoi hysbyseb i unrhyw glybiau newydd.

ADRODDIAD SWYDDOG HYRWYDDO CLYBIAU GWAWR Y GOGLEDD
Lowri Rees-Roberts

Cychwynnais yn y swydd newydd hon ar y 1af o Ragfyr 2007, ac roedd digon o ddigwyddiadau i fod yn rhan ohonyn nhw a chyfleon da er mwyn hyrwyddo clybiau gwawr ymhellach.

Cefais fy ngwahodd yn syth i fod yn rhan o daith groto S4C, ac mi es gyda fy stondin i Ddolgellau. Roedd hyn yn gyfle i hyrwyddo ac ar yr un pryd cyfarfod ag eraill e.e. Meinir o Twf a chychwyn ar gyfarfod cysylltiadau a fydd yn ddefnyddiol ar gyfer y dyfodol.

Roedd Menter Maldwyn ar y cyd gyda Merched y Wawr wedi penderfynu ar gynllun i ysgrifennu llythyrau i blant ysgolion Maldwyn gan Siôn Corn a bum yn brysur yn ysgrifennu llythyr i bob un o'r plant, eu rhoi mewn amlenni, a'u postio. Roedd hyn yn gynllun arbennig iawn a phenderfynwyd yn fforwm Maldwyn yn dilyn y cynllun iddo fod yn llwyddiant ysgubol ond y byddai'n well cychwyn yn gynt y tro nesaf.

Cyn imi gael y swydd roedd nifer o ardal Bangor wedi dangos diddordeb mewn cychwyn Clwb Gwawr, felly ar y nos Wener ar ôl imi gael fy mhenodi ar ddydd Mercher mi deithiais i lawr i Fangor i gyfarfod y criw. Roeddynt yn frwdfrydig iawn i sefydlu clwb ond roedd y niferoedd yn isel. Er hynny penderfynwyd bwrw mlaen i gynllunio rhaglen ac yn y flwyddyn newydd cafwyd noson bampro. Noson wych ond unwaith eto yn siomedig o ran niferoedd gyda dim ond pedair o'r merched yn troi fyny. Dyma benderfynu ar y cyd gyda Caren Wyn Roberts, swyddog gyda Bwrdd yr Iaith y byddai'n rhaid gwneud ymdrech o ddifrif i geisio denu mwy o aelodau, felly dyma fynd at y wasg, gwneud posteri, ayyb a dyma ddenu 14 o aelodau newydd. Mae Clwb Efa yn mynd o nerth i nerth erbyn hyn a mis Ionawr 2009 roedd y Clwb wedi ei gwahodd i fod yn rhan o gynulleidfa Tudur Owen o'r Doc.

Cyflwynais fy hunan i'r aelodau drwy lythyr, gan esbonio am weithgareddau Cenedlaethol ynghyd a nifer o gynlluniau oedd ar y gweill er mwyn datblygu a hyrwyddo Clybiau Gwawr. Rwyf hefyd wedi sôn wrthynt am y posibilrwydd o ymgeisio am grant "Arian i Bawb", ac wedi nodi fy mod ar gael i roi cymorth gyda hyn, neu ar unrhyw fater arall yn ymwneud â'r Clwb a'r aelodau. Hefyd rwyf wedi hyrwyddo'r wefan gan obeithio bydd clybiau yn anfon gwybodaeth a lluniau.

Ym mis Rhagfyr ac Ionawr 2008 dyma Mim Roberts a minnau yn cyfarfod a Threfnydd CFFI Meirionnydd a chydweithio i drefnu noson Siôn a Siân i gasglu arian i CFFI a Chronfa Bryan Davies. Bu'n amser prysur iawn, a bûm yn hyrwyddo ar raglen Geraint Lloyd, fe fu erthyglau di-ri yn y papurau newydd ac fe gasglwyd £2,200 ar y noson, noson lewyrchus iawn a ffordd arbennig i hyrwyddo clybiau gwawr yn y gogledd.

Rwyf wedi ymweld â Chlybiau Gwawr y Gwyniaid, Clwb Gwawr Efa, Clwb Gwawr y Sgwâr, Clwb Gwawr Traed yn Rhydd, Clwb Gwawr Lawd a Chlwb Gwawr Glyndŵr ac wedi trefnu i ymweld â'r Clybiau eraill yn ystod y misoedd nesaf. Rwyf wedi cysylltu â'r Clybiau drwy lythyr, gan esbonio am weithgareddau Cenedlaethol ac yn gofyn a oes angen unrhyw gymorth.

Er mwyn cynnig cymorth ychwanegol i'r clybiau rwyf wedi cynnig gwneud eu rhaglenni, ac wedi gwneud y gwasanaeth yma i Glwb Gwawr y Gwyniaid, Clwb Gwawr y Gleision, Clwb

Gwawr y Sgwâr a Chlwb Gwawr Traed yn Rhydd. Mae'r Clybiau eraill wedi gwneud eu rhaglenni eu hunain.

Ar hyn o bryd dwi'n gweithio ar sefydlu Clwb Gwawr yn Llanfair Caereinion, Clwb Gwawr Bwrlwm Banwy ac er ein bod wedi cyfarfod dwywaith bellach, mae'r niferoedd yn parhau i fod yn isel, ac felly am gynnal noson fawr ym mis Chwefror eleni, gan geisio denu mwy o aelodau.

Dwi wedi bod yn sicrhau deunydd ar gyfer Y Wawr, ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi ysgrifennu dwy erthygl ar 'Diwrnod yn fy Mywyd' ac wedi sicrhau deunydd ar gyfer erthygl Penwythnosau Iâr.
Yn ystod mis Ebrill bum ar daith gyda sioe deithio S4C, roedd y sioeau yn llwyddiannus iawn ond er hynny ychydig iawn a ddangosodd ddiddordeb mewn sefydlu clybiau gwawr er bod nifer wedi holi ynglŷn â chlybiau cyfagos iddynt ac wedi ymuno gyda'r clybiau hynny.
Daeth Mim gyda mi i ymweld â Chlwb Gwawr Lawd, er mwyn eu cynorthwyo i lenwi ffurflenni agor cyfrif banc. Roedd hyn yn gyfle imi ymweld sut i fynd o'i chwmpas hi a pha gyngor oedd modd imi gynnig i'r aelodau.

Er bod rhai o'r clybiau yn gryf iawn, mae rhai yn wan hefyd, ac mae Clwb Gwawr Lawd yn dioddef o ddiffyg aelodau a Chlwb Gwawr Crwst yn ystyried mynd ar ei liwt ei hunain. Rydym yn ceisio gweithredu gyda'r clybiau yma.

Fel rhan o weithgareddau ar gyfer y flwyddyn i ddod rwyf wedi cydweithio gyda Mim, Swyddog Datblygu Merched y Wawr i gychwyn ar raglen beilot arbennig iawn. Mae'r rhaglen wedi dechrau mis Ionawr ac yn mynd o nerth i nerth.

Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd gyda, Delyth Vaughan (Mantell Gwynedd) Neil Pringle (Cyngor Chwaraeon Cymru), Sharon Jones (Swyddog datblygu Chwaraeon ym Meirionnydd) a Carwen Stokes, (Canolfannau Hamdden Cyngor Gwynedd) rydym wedi bod yn llwyddiannus yn ein cais am grant Mantell Gwynedd ac wedi dechrau sesiynau yng Nghanolfan Hamdden Penllyn unwaith yr wythnos i gyflwyno byd iach i aelodau Clybiau Gwawr a Merched y Wawr yn yr ardal. Ein gobeithion yn rhinwedd y rhaglen beilot yma fyddai rhoi'r cyfle i aelodau ddefnyddio'r cyfleusterau a chael eu cyflwyno i fyd o ffitrwydd ac iechyd.

Rydym yn credu bydd y rhaglen yma'r hyrwyddo'r mudiad ymhellach. Os bydd y cynllun yma yn llwyddiant, ein gobaith yw cyflwyno'r cynllun i ardaloedd a rhanbarthau eraill yn ystod 2009/ 2010.

Yn ystod y misoedd diwethaf rwyf wedi bod yn edrych ar y posibilrwydd o gynnal noson arbennig i hyrwyddo Clybiau Gwawr yn y Gogledd. Erbyn hyn mae ffurflen gais am grant Arian i Bawb wedi ei gwblhau ac wedi ei anfon i'r Gronfa Loteri. Dwi'n gobeithio bydd y cais yn un lwyddiannus a bydd modd inni gynnal noson hwyliog ym Mhlas Isaf Corwen gyda'r band Celt yn diddori a Dilwyn Morgan yn arwain.

Rwyf wedi mynychu'r cyfarfodydd canlynol: Pwyllgor Fforwm Maldwyn x 4; Cyfarfodydd Staff; Pwyllgor Fforwm Meirionnydd yng Nghoed y Brenin Ganllwyd x3; Pwyllgor Llywio x 1; Pwyllgor Rhanbarth Aberconwy, Maldwyn a Môn, Meirionnydd; Ffair Arianwyr; Pwyllgor Fforwm Wrecsam x 2; Pwyllgor Fforwm Conwy x 1; Partneriaeth rhanbarth y Gogledd yng Nghaernarfon x1
Rwyf wedi mynychu'r cyrsiau hyfforddi canlynol: Cwrs 1 diwrnod ar Bwynt Pŵer; Cwrs Hyrwyddo Clybiau; Cwrs Staff ym Machynlleth; Cwrs Cymorth Cyntaf

CRYNODEB O STRATEGAETH MERCHED Y WAWR YN 2008/2009

1. Cynnal 3,000 o weithgareddau ar lefel leol yn rheolaidd gan geisio denu aelodau newydd ac agor Canghennau a Chlybiau Gwawr newydd lle bo'r angen.
2. Cynnal pwyllgorau a gweithgareddau Rhanbarthol yn rheolaidd er mwyn sicrhau cysylltiad rhwng lefel leol a chenedlaethol.
3. Cyflogi 6 Swyddog Datblygu, un yn y Gogledd-Orllewin a Maldwyn Powys, un yng Nghaerfyrddin, un yn y De-ddwyrain a De Powys, un yn Gorllewin Morgannwg, un yn y Gogledd-Ddwyrain, ac un ym Mhenfro a Cheredigion, a dwy Swyddog Hyrwyddo'r Clybiau Gwawr - un yn y De a'r llall yn y Gogledd: er mwyn:
   - Hybu gweithgaredd y Mudiad
   - Cynnal a chynorthwyo'r aelodaeth bresennol
   - Denu aelodau newydd
   - Sefydlu Clybiau Gwawr a Changhennau newydd
   - Trefnu gweithgareddau a chael nwyddau newydd i greu incwm i'r Mudiad
4. Gweithredu Cyfansoddiad y Mudiad ac yn sgil hynny:
   - Cynnal o leiaf 4 cyfarfod o Bwyllgor Llywio'r Mudiad
   - Cynnal 2 gyfarfod o'r Pwyllgor Rhyngranbarthol
   - Cynnal Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai
   - Parhau gyda'r 3 Is-bwyllgor cenedlaethol, i gwrdd o leiaf 2 waith y flwyddyn a chynnal pwyllgorau ar y cyd yn ôl y galw.
5. Marchnata a hyrwyddo'r Ganolfan Genedlaethol.
6. Cynnal Penwythnos Preswyl cenedlaethol yn Llanbedr Pont Steffan ar y thema Difyrrwch a Doniau .
7. Trefnu rhaglen Penwythnos Preswyl 2009 ar y thema ?????? yn Aberystwyth.
8. Cynnal Cystadleuaeth Radi Thomas - pedair eitem o grefft, a chystadleuaeth trefnu blodau ar yr y thema 'Abertawe'n Fflam yn ystod Sioe Amaethyddol Llanelwedd 2009.
9. Cynnal Chwaraeon Cenedlaethol a chystadleuaeth adloniant - a chyflwyno tri thlws y Dysgwyr, sgwrs ar dâp sain ar y thema 'Amser Hamdden', ysgrifennu dyddiadur wythnos, a chreu cerdyn cyfarth doniol yn yr Ŵyl Haf ym Machynlleth i'w drefnu gan y Pwyllgorau Cenedlaethol ar y cyd.
10. Cyhoeddi a dosbarthu 4 rhifyn o gylchgrawn *Y Wawr.*
11. Cyhoeddi Dyddiadur 2009 ac argraffu cardiau Nadolig 2008.
12. Trefnu stondinau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Bae Caerdydd; Sioe Amaethyddol Llanelwedd (Gorllewin Morgannwg) ac Eisteddfod Genedlaethol M a'r Cylch.
13. Cynnal Cwis Hwyl Cenedlaethol.
14. Cynnal Cwrs Crefft Undydd yn y De a'r Gogledd.
15. Cynnal Cinio'r Llywydd yn y De a'r Gogledd.

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR
I YMDDIRIEDOLWYR MERCHED Y WAWR

Yr ydym wedi archwilio'r adroddiadau ariannol ar dudalennau 24 i 28 a baratowyd ar sail cyfrifo cost hanesyddol ac ar sail polisïau cyfrifo. Mae'r adroddiad yma wedi ei baratoi i'r Ymddiriedolwyr. Ymgymerwyd ein gwaith archwilio fel ein body n gallu mynegi i'r ymddiriedolwyr y materion hynny yr ydym angen eu mynegi iddynt yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ac i ddim pwrpas arall. I'r ehangder mwyaf ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb heblaw am i'r Elusen a'r Ymddiriedolwyr am ein gwaith archwilio, i'r adroddiad yma, nac am unrhyw farn a seliwyd.

Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr ac archwilwyr

Yn unol â disgrifiad ar dudalen 1, eich cyfrifoldeb chwi fel ymddiriedolwyr yw paratoi adroddiadau ariannol. Ein cyfrifoldeb ninnau yw rhoi barn annibynnol ar yr adroddiadau hynny, yn seiliedig ar ein harchwiliad, a chyflwyno'r farn honno i chwi. Penodwyd ni fel Archwilwyr dan Adran 43 o Ddeddf Elusen 1993 ac adroddwn yn unol â rheoliadau a wnaed dan Adran 44 y Ddeddf honno.

Sail y farn

Cwblhawyd yr archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Ymarferion Archwilio. Y mae archwiliad yn cynnwys astudiaeth, ar sail prawf, o dystiolaeth sydd yn berthnasol i'r symiau a'r datganiadau sydd yn yr adroddiadau ariannol. Y mae hefyd yn cynnwys asesiad o amcangyfrifon arwyddocaol a phenderfyniadau a waned gan yr ymddiriedolwyr wrth baratoi'r adroddiadau ariannol ac asesiad o briodolwyd y polisïau cyfrifo i sefyllfa'r elusen, o'u cymhwyso yn gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniwyd a chwblhawyd yr archwiliad mewn modd a'n galluogodd i dderbyn pob gwybodaeth ac esboniad a oedd yn ein tyb ni yn angenrheidiol er mwyn i ni gael ein cyflenwi â thystiolaeth ddigonol roi sicrhad rhesymol nad oes unrhyw gam ddatganiad materol o ganlyniad i dwyll neu afreoleidd-dra neu gamgymeriad arall yn yr adroddiadau ariannol. Wrth ffurfio barn rhoddwyd ystyriaeth i ddigonolrwydd cyffredinol cyflwyniadau gwybodaeth yn yr adroddiadau ariannol.

Barn

Yn ein barn ni y mae'r adroddiadau ariannol yn rhoi adlewyrchiad cywir a theg o gyflwr ariannol yr elusen ar 31 Awst 2008, yr adnoddau a ddaeth i mewn a chymhwysiad yr adnoddau yn y flwyddyn yn diweddu bryd hynny, ac fe'i paratowyd yn gywir yn unol â Deddf Elusen 1993.

Davies & John
Cyfrifwyr ac Archwilwyr Cofrestredig
12 Stryd y Frenhines
Aberystwyth
Ceredigion

1af o Fawrth 2009